------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor y Llywydd

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Y Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPLl@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024/25

(9.00 - 10.30) (Tudalennau 1 - 81)

Y Fonesig Elan Closs Stephens CBE - Comisiynydd Etholiadol Cymru

Shaun McNally CBE - Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol

David Moran - Cyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Comisiwn Etholiadol

Rhydian Thomas - Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru, y Comisiwn Etholiadol

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 4 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024/25: Trafod y dystiolaeth

(10.30 - 11.00)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Comisiwn Etholiadol | The Electoral Commission

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

28 Medi 2023

Annwyl Gadeirydd,

Mae’n bleser gennyf amgáu Amcangyfrif Blynyddol y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 mewn perthynas â’n gweithgareddau datganoledig yng Nghymru. Ategir ein amcangyfrif gan ein Cynllun Corfforaethol pum mlynedd ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2026/27 [Cymraeg a Saesneg]. £1.658m fydd amcangyfrif y flwyddyn hon.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae’r amcangyfrif a’r wybodaeth ategol yn nodi sut rydym yn bwriadu rheoli ein gwaith yn effeithiol yng Nghymru yn ystod 2024/25. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi’r pum amcan strategol ar gyfer y cyfnod, sy’n ceisio cynnal y safonau uchel ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system etholiadol, yn ogystal â mynd i'r afael â phwysau a meysydd i'w datblygu i wella cryfder democratiaeth yng Nghymru a'r DU ymhellach. Er nad yw'r flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys etholiadau datganoledig, mae pwysigrwydd ein gwaith ar draws ein grwpiau rhanddeiliaid yn parhau, fel y bydd yr wybodaeth ganlynol yn dangos.

Mae'r cynnydd ar amcangyfrif 2023/24 yn cael ei ysgogi'n bennaf gan fuddsoddiadau angenrheidiol i wella technoleg, gan gynnwys gwelliannau i seiberddiogelwch, ac i fynd i'r afael â materion capasiti a gallu ar draws nifer o wasanaethau allweddol yn y Comisiwn. Ceir rhagor o fanylion am ymgyrchoedd buddsoddi allweddol isod.

## Ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2024-25

**Galluogi hyder ac ymgysylltu â phleidleiswyr**

Byddwn yn parhau i weithio ar draws nifer i feysydd i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn nemocratiaeth Cymru. Rydym yn datblygu ac yn ehangu ein darpariaeth o wybodaeth gywir i bleidleiswyr trwy ein gwefan a sianeli eraill yn barhaus, er mwyn sicrhau ei bod yn darparu gwybodaeth hygyrch i'w cefnogi i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Rhwng etholiadau, rydym yn gweithio i ddatblygu hysbysebu newydd yn seiliedig ar y mewnwelediadau diweddaraf i gynyddu cyfraddau cofrestru etholiadol.

Mae ein rhaglen o addysg ddemocrataidd a gwaith ymgysylltu yn parhau i ymestyn yr ystod o adnoddau sydd ar gael i bobl ifanc ac addysgwyr ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn rhan gynyddol bwysig o'n gwaith parhaus i gynyddu ymgysylltiad ieuenctid mewn democratiaeth, gan godi dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd gyda'r nod o sicrhau newid cyson a dwys i lefelau ymgysylltu.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn, gan sefydlu rhaglen llais ieuenctid hirdymor gyda'n partner newydd, Plant yng Nghymru. Byddant yn casglu mewnwelediadau gan grŵp amrywiol o bobl ifanc ledled Cymru i sicrhau bod ein hadnoddau yn bodloni anghenion pobl ifanc yng Nghymru. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r Democracy Box i greu cynnwys ar y cyd gyda phobl ifanc. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r hyn rydym yn ei gynnig i athrawon, gan roi hyfforddiant a chanllawiau ar sut i ddarparu addysg ddemocrataidd yn effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru er mwyn cefnogi grwpiau eraill sydd wedi'u tan-gofrestru i gymryd rhan mewn democratiaeth.

**Rhoi gwybod am ddatblygiad y diwygiadau**

Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cyngor arbenigol a her adeiladol i sicrhau y gall cynigion gyflawni'n llwyddiannus ar gyfer pleidleiswyr, gweinyddwyr ac ymgyrchwyr. Bydd hyn yn parhau fel Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig a deddfwriaeth i gyflwyno cynnydd cwotâu rhywedd drwy broses ddeddfwriaethol y Senedd a deddfwriaeth etholiadol newydd.

Byddwn yn rhoi barn arbenigol ar y tri bil, gan ystyried barn y gymuned etholiadol ledled Cymru, a sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ymarferol ac yn cyflawni ar gyfer pleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol. Yn ogystal, byddwn yn darparu cyngor ar y Gorchymyn Ymddygiad drafft ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2026 ac yn paratoi Codau Ymarfer newydd ar gyfer ymgyrchwyr, pleidiau ac ymgeiswyr nad ydynt yn bleidiau. Byddwn hefyd yn datblygu adnoddau canllaw newydd ar gyfer gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr i'w cefnogi i gydymffurfio ag unrhyw ofynion newydd sy'n codi o'r ddeddfwriaeth.

Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y sylfaen dystiolaeth sylweddol a ddatblygwn trwy ein rhaglen waith ar foderneiddio etholiadol, gan gynnwys yr ymchwil yr ydym yn parhau i'w chynnal gyda'r cyhoedd a gweinyddwyr etholiadol. Mae ein rhaglen ymchwil barhaus yn sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyfoes o agweddau'r cyhoedd, i fod yn sail i ddatblygu cynigion polisi ar gyfer moderneiddio pellach.

**Cefnogi cyflawni etholiadau a gynhelir yn dda**

Rydym yn parhau i gefnogi Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bleidleiswyr. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor ac arweiniad, cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd gyda Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol a monitro eu perfformiad yn erbyn ein safonau cyhoeddedig. Byddwn yn cynorthwyo ac yn cefnogi cyflwyno Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol yng Nghymru ac yn defnyddio'r fforwm newydd hwn i helpu Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein rhwydweithiau sefydledig eraill, gan gynnwys Panel Pleidiau'r Senedd, i ddeall y ffordd orau y gallwn gefnogi pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i'w helpu i ddelio â'r heriau sy'n eu hwynebu. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda gweinyddwyr etholiadol trwy Weithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru a Chymdeithas

Gweinyddwyr Etholiadol Cymru i sicrhau bod eu barn a'u hanghenion yn cael ei hadlewyrchu'n llawn yn ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys rheoli cymhlethdodau cynyddol y gwahaniaeth rhwng y rheolau ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau neilltuedig ac etholiadau a gedwir yn ôl.

Byddwn hefyd yn edrych ar yr awgrym o weithio gydag Aelodau perthnasol i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar Ddemocratiaeth o fewn y Senedd, gan ddarparu fforwm i Aelodau a rhanddeiliaid drafod materion sy'n ymwneud â democratiaeth Cymru.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid rheoleiddio a rhanddeiliaid ehangach**

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein gwaith o gefnogi'r gymuned a reoleiddir yng Nghymru, gan gynnwys datblygu cyngor ac arweiniad ac adnoddau pwrpasol fel y gall pleidiau ac ymgyrchwyr ddeall y deddfau cyllid gwleidyddol yn hawdd, waeth beth yw eu maint na'u profiad. Rydym wedi ehangu'r ystod o gymorth sydd ar gael ac yn parhau i ddarparu tryloywder i'r cyhoedd ar gyllid gwleidyddol yng Nghymru trwy gyhoeddi manylion rhoddion, benthyciadau a chyfrifon blynyddol pleidiau. Rydym yn monitro cydymffurfedd â chyfraith cyllid gwleidyddol a byddwn yn cymryd camau gorfodi cymesur lle bo hynny'n angenrheidiol.

Yn olaf, byddwn yn parhau i weithio gyda chyrff statudol eraill a'n rhwydweithiau sefydledig i ddeall y ffordd orau o gefnogi ein rhanddeiliaid ehangach a'r heriau sy'n eu hwynebu. Byddwn hefyd yn parhau i hysbysu Aelodau Seneddol am ein gwaith, gan gynnwys darparu sesiynau galw heibio yn y Senedd, sesiynau briffio ar feysydd gwaith y mae Aelodau Seneddol wedi mynegi diddordeb ynddynt a seminarau wedi'u teilwra.

## Gwerth am arian

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o gyllid. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn canolbwyntio ar sawl maes gwaith allweddol, gan gynnwys caffael, rheoli contractau, rheoli perfformiad, a blaenoriaethu effeithiol.

Mae cyllidebau arfaethedig ar gyfer y Comisiwn fel y nodwyd yn flaenorol yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u diweddaru i adlewyrchu pwysau chwyddiant sy'n effeithio ar y DU. Mae gallu'r Comisiwn i ddangos gwerth am arian yn dibynnu ar ei allu i optimeiddio arferion caffael, rheoli contractau yn effeithlon, rheoli risgiau, monitro a gwella perfformiad, a gwneud penderfyniadau gwybodus am ddyraniad adnoddau trwy flaenoriaethu effeithiol.

Bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau ein bod nid yn unig yn cyflawni ein hamcanion ond hefyd yn gwneud hynny mewn modd cost-effeithiol ac effeithlon, gan ysgogi enillion mewn gwerth cyhoeddus yn y pen draw.

O ran y cais arfaethedig am gyllid, mae'r un fformiwla ariannu wedi'i chymhwyso â'r un yn y flwyddyn flaenorol, i gefnogi'r rhaniad teg o'r costau rhwng y tair senedd. Mae costau craidd y Comisiwn ar gyfer gweithgarwch a rennir - fel y gefnogaeth barhaus i bleidleiswyr, gweinyddwyr a'r gymuned reoledig, yn ogystal â'r costau corfforaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Comisiwn - yn cael eu dyrannu ar fformiwla yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth. Mae'r dyraniad i Gymru fel arfer yn 8%. Pan fo galw ychwanegol ar swyddogaethau'r Comisiwn i fodloni anghenion sy'n benodol i

randdeiliaid Cymru, neu lle gellir priodoli'r gweithgaredd i swyddogaethau datganoledig Cymru yn unig, dyrennir y rhain rhwng 5% a 100%.

Er gwaethaf chwyddiant uchel dros y 18 mis diwethaf, gan gynnwys lefel o 6.8% CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) ym mis Gorffennaf 2023, byddwn yn parhau i geisio lliniaru chwyddiant lle bynnag y bo modd yn ein costau masnachol di-dâl.

## Ymgyrchoedd buddsoddi allweddol

Gallwn gadarnhau y bydd cyfraniad arfaethedig Senedd Cymru yn gynnydd o £244,000 o'i gymharu â'r cyllid ar gyfer cyfnod 2023/24. Mae hyn yn bennaf wedi'i wneud o fuddsoddiad yn y meysydd canlynol:

**Seiberddiogelwch**

Mae darganfod ymosodiad seiber soffistigedig ar y Comisiwn wedi tanlinellu'r angen i gadw i fyny â'r dechnoleg seiberddiogelwch ddiweddaraf. Mae proses ddemocrataidd y DU a'i sefydliadau yn parhau i fod yn darged i weithredwyr gelyniaethus ar-lein. Mae gwelliannau seiberddiogelwch yn parhau i 2024/25, ac maent yn rhan sylweddol o'r buddsoddiad cynyddol rydym yn chwilio amdano. £73,000 yw'r gyfran o'r costau hyn mewn perthynas â chyllideb Cymru.

**Darparu gwerth am arian ac adeiladu gweithlu medrus ac amrywiol**

Er mwyn sicrhau gwerth am arian, byddwn yn buddsoddi mewn staffio caffael i wella safonau mewn trafodion masnachol a datblygu ein swyddogaethau cyllidebu a monitro ariannol mewnol. Mae hyn yn cynnwys ehangu ein gwasanaethau archwilio mewnol ac amsugno ffioedd uwch gan ein harchwilwyr allanol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn dilyn mwy o brofion yn ystod cau cyfrifon 2022/23.

Byddwn hefyd yn buddsoddi yn ein swyddogaethau adnoddau dynol i wella casglu a monitro data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i lywio ein prosesau recriwtio a chadw staff. Byddwn hefyd yn cryfhau'r cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer ein gweithlu.

£65,000 yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau hyn, fel y maent wedi'u priodoli i Gymru.

**Cyflawni diwygio etholiadol**

O ystyried cyflwyno'r biliau diwygio etholiadol yng Nghymru, rydym yn buddsoddi mewn mwy o gapasiti ar draws ein swyddogaethau yng Nghymru a'n swyddogaethau polisi, cyfreithiol, ymchwil a rheoleiddio. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn ddarparu cyngor arbenigol i'r Llywodraeth, Senedd y DU a'r gymuned a reoleiddir i reoli effaith mwy o wahaniaeth rhwng y rheolau ar gyfer etholiadau datganoledig Cymru ac etholiadau a gedwir yn ôl. Cyfanswm y costau sydd wedi'u priodoli i Gymru ar gyfer y buddsoddiad hwn yw £51,000.

**Dyfarniad tâl**

Mae rhagdybiaethau ar gyfer y dyfarniad cyflog yn 2024/25 a chwyddiant a adlewyrchir mewn contractau ar £74,000, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y cytunir ar gynnydd o 5%.

Mae'r uchod yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad o £19,000 o ganlyniad i newidiadau i gyfanswm gwerth yr asedau a godir ar flwyddyn ariannol 2024/25.

Fel yn y flwyddyn flaenorol, gall Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor a chymorth gan y Comisiwn ar faterion penodol yn ymwneud ag etholiadau. Byddai hyn yn ychwanegol at y cyllid a ddarperir gan y Senedd.

## Mesur perfformiad

Gwnaethom nodi gwelliannau er budd y cyhoedd, pleidiau ac ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadol a seneddau drwy gydol ein Cynllun Corfforaethol, a'n nod yw mesur pa mor dda yr ydym yn sylweddoli'r gwelliannau hyn gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion/mesurau. Byddwn yn defnyddio cymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol, i ysgogi gwelliannau parhaus yn ein gweithdrefnau a'n sgiliau. Yn ddiofyn, bydd data perfformiad a data system yn cael eu casglu ar lefel pedair rhan y DU: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – i gefnogi’r atebolrwydd am ein gwaith.

Mae ein dangosyddion perfformiad corfforaethol yn eistedd ochr yn ochr â grŵp sy'n dangos safon y systemau etholiadol yn eu cyfanrwydd. Mae’r rhain yn galluogi ‘archwiliad iechyd’ i helpu llywio gweithrediadau gennym ni ac eraill. Gan weithio gyda'r lleill hyn – gan gynnwys aelodau etholedig, llywodraeth, ymgyrchwyr, a phleidiau, hyd at weinyddwyr etholiadol a'r heddlu, rydym yn gwneud cyfraniadau allweddol sy'n galluogi system ddemocrataidd gadarn.


Cyfeiriwch at Atodiad A i gael manylion y dangosyddion a gynigiwyd yn 2022/23 (y ffigurau diwedd blwyddyn diweddaraf sydd ar gael), a'r gwerthoedd a gyflawnwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gwerthoedd hyn yn dangos ein bod wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'r targedau a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn, gyda manylion y rhesymau dros y pedwar dangosydd perfformiad corfforaethol a fethodd eu targedau. Mae Atodiad B yn dangos ein cynnig ar gyfer ffyrdd o fesur ein perfformiad yn 2024/25.

Rwy’n gobeithio y byddwch yn cytuno bod ein rhaglen waith ar gyfer 2024-25 yn briodol i fynd i’r afael â maint a natur yr heriau dan sylw ac y bydd yn y pen draw yn arwain at fwy o hyder ymhlith y cyhoedd yn ein system etholiadol. Byddwn yn mesur effaith ein gweithgareddau arfaethedig drwy gydol 2024-25 i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r heriau a amlinellir uchod.

Disgwylir i Gynllun Corfforaethol newydd Senedd y DU fod ar waith yn dilyn yr etholiad cyffredinol a fydd yn cael ei gynnal cyn mis Ionawr 2025, a bydd y cynllun hwn yn cael ei ystyried fel un sy'n briodol wrth i ni weithio tuag at ddatblygu Cynllun Corfforaethol Cymru a fydd yn cael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor y Llywydd i'w ystyried ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026.

Rydym yn cymeradwyo'r amcangyfrif amgaeedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 i'r Pwyllgor ac edrychwn ymlaen at ei drafod gyda chi pan fo'n briodol.

Yr eiddoch yn gywir,



**Y Fonesig Elan Closs Stephens CBE**
Comisiynydd Etholiadol - Cymru



**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu,
Y Comisiwn Etholiadol

# Atodiad A: Mesur ein perfformiad 2022-23

## Ein dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Rhif | Diffiniad | Targed perfformiad corfforaethol | Diwedd gwerthoedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **Amcan strategol 1: Cofrestru a phleidleisio hygyrch** | | | |
| 1 | Dylanwad ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gofrestru pleidleiswyr: Mae ychwanegiadau at gofrestrau etholiadol yn ystod ein hymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr yn bodloni neu'n rhagori ar ein targedau (etholiadau mis Mai 2022) | Cymru: 36,716<br>(379,810 – DU) | Cymru: 22,678[1]<br>(280,498 – DU) |
| 2 | Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid sy'n lledaenu gwybodaeth pleidleiswyr i grwpiau targed penodol, gan gynnwys y grwpiau hynny sydd newydd eu hetholfreinio | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | 18 rhifyn o'r Gofrestr i'n rhanddeiliaid cyfathrebu mewn awdurdodau lleol |
| 3 | Ymgysylltu â phartneriaid a phobl ifanc i ddatblygu adnoddau addysg democrataidd i bobl ifanc yn unol â'n Strategaeth Ddysgu | I'w ddatblygu yn 2022/23 | Ymgysylltiad wedi'i wneud ac adnoddau wedi'u datblygu |
| **Amcan strategol 2: Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio** | | | |
| 4 | Cyhoeddi adroddiadau rhoddion a benthyciadau yn amserol erbyn y dyddiad cau statudol | 100% | 100% |
| 5 | Cyhoeddi datganiadau o gyfrifon yn amserol | 100% | 5.02%[2] |

[1] Mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cael effaith negyddol ar y dynodydd perfformiad hwn, rhai ohonynt yn allanol a rhai'n ymwneud â'r ymgyrch gan gynnwys gosod targedau. Yn nodedig, roedd gostyngiad yng ngwariant ymgyrchoedd cyn yr etholiadau hyn ac yn y cam codi ymwybyddiaeth yn gynnar. Ers yr etholiadau, rydym wedi adolygu'r holl ddata i sicrhau effeithiolrwydd parhaus ein hysbysebu, a'n prosesau gosod targedau, i ystyried y mewnwelediadau hyn wrth gynllunio ymgyrchoedd yn y dyfodol.

[2] Mae yna wahanol derfynau amser lle mae angen i bleidiau sydd ag incwm a gwariant o dan £250,000 gyflwyno eu datganiad o gyfrifon blynyddol i'r Comisiwn. Oherwydd cyfyngiadau adnoddau mewnol, gwnaed penderfyniad yn 2022 i gyfuno cyhoeddiad y ddau gam. Roedd hyn yn golygu gohirio cyhoeddi nifer fawr o ddatganiadau tan ar ôl y dyddiad cau adrodd ar gyfer y pleidiau mwy. cafodd 100% o ddatganiadau eu cyhoeddi ar y dyddiad cyhoeddi a gytunwyd

| Rhif | Diffiniad | Targed perfformiad corfforaethol | Diwedd gwerthoedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| 6 | Dilyniant amserol a chwblhau ymchwiliadau | 90% | 91.18% |
| 7 | Hysbysiad amserol / cyhoeddi penderfyniadau ar sancsiynau (hysbysiadau terfynol) yn dilyn cyfnod sylwadau | 90% | 100% |
| 8 | Hysbysiad amserol o ganlyniad ceisiadau cofrestru ymgyrchwyr plaid a rhai nad ydynt yn perthyn i blaid (ar gyfer manylion newydd a newid manylion) | 90% | 81.91% |
| 9 | Ymatebion amserol i geisiadau am gyngor rheoleiddio ar adrodd ariannol | 90% | 99.17% |
| 10 | Cynhyrchion/adnoddau canllaw rheoleiddiol effeithiol yn cael eu darparu i gefnogi cydymffurfiaeth â'r gyfraith | Eisoes yn casglu data, i'w sylfaenu yn 2021/22 | 59 |
| 11 | Ymholiadau sy'n ymwneud â chynnyrch canllaw sy'n helpu i nodi meysydd presennol a/neu newydd o'r canllawiau sy'n rhoi eglurder ychwanegol gyda'r gyfraith | Eisoes yn casglu data, i'w sylfaenu yn 2021/22 | 100% |
| **Amcan strategol 3: Gwasanaethau etholiadol lleol gwydn** | | | |
| 12 | Cyngor cywir ac amserol i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid (Prydain Fawr) | 100% | 99.35% |
| 13 | Cyhoeddi canllawiau cywir ac amserol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol | 100% | 100% |
| **Amcan strategol 4: Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol** | | | |
| 14 | Cyhoeddi adroddiadau etholiad / refferendwm yn amserol | 100% | 100% |
| 15 | Cyhoeddi adroddiad gwerthuso cynlluniau peilot yn amserol | 100% | 100% (1 cyhoeddiad - Y dadansoddiad o'r cynlluniau peilot pleidleisio cynnar yng Nghymru |
| 16 | Ymatebion amserol i gynigion polisi ac ymgynghoriadau deddfwriaethol | 100% | 100% |
| 17 | Ymatebion amserol i ohebiaeth rhanddeiliaid etholedig (AS a llywodraeth leol). | 100% | 97.83% |
| **Amcan strategol 5: System etholiadol fodern a chynaliadwy** | | | |

| Rhif | Diffiniad | Targed perfformiad corfforaethol | Diwedd gwerthoedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| 18 | Y cyhoedd, ymgyrchwyr a phleidiau, gweinyddwyr etholiadol a'r cyfryngau yn ymgysylltu â'n gwefan | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (mae'r wefan yn dal i gael ei datblygu) |
| 19 | Amlder ymgysylltu â chyrff rheoleiddio eraill | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (Mae'r dull mesur yn dal i gael ei ddatblygu) |
| 20 | Bodloni gofynion deddfwriaeth amgylcheddol bresennol a deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (I'w ddatblygu pan fydd targedau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi) |
| **Amcan strategol 6: Rydym yn dangos annibyniaeth ac uniondeb** | | | |
| 21 | Ymatebion amserol i ymholiadau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg | 100% o fewn un diwrnod gwaith | 100% |
| 22 | Ymatebion amserol i ymholiadau cyhoeddus Cymraeg a Saesneg trwy alwadau, llythyrau ac e-byst | 100% | 99.69% |
| 23 | Ymatebion amserol i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth dilys yn y Gymraeg a'r Saesneg | 100% | 100% |
| 24 | Ymatebion amserol i Geisiadau am Fynediad at Wybodaeth dilys yn y Gymraeg a'r Saesneg | 90% | 97.7% |
| **Amcan strategol 7: Rydym yn sefydliad medrus lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth** | | | |
| 25 | Cynnal sgôr lles staff yn yr arolwg staff | 77% | 77% |
| 26 | Cynnal sgôr ymgysylltiad staff yn yr arolwg staff | 67% | 66% |
| 27 | Cynnal cyflawnder gwybodaeth ar amrywiaeth gweithlu | 85% | 90.86% |
| 28 | Parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg | 100% | 100% |
| **Amcan strategol 8: Rydym yn sefydliad sy'n dysgu lle mae gwelliant yn barhaus a defnyddir adnoddau yn effeithiol.** | | | |
| 29 | Fframwaith gwerth cyhoeddus: Mae cost darparu ein gwasanaethau fesul trethdalwr y flwyddyn yn aros o fewn llinell sylfaen y cytunwyd arni | 80 ceiniog | 39 ceiniog |

| Rhif | Diffiniad | Targed perfformiad corfforaethol | Diwedd gwerthoedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| 30 | Gweithredu argymhellion archwilio mewnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio, yn amserol | 90% | 76.67%[3] |
| 31 | Amodi ein datganiadau ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | Barn archwilio ddiamod | Na |
| 32 | Rheoli ansawdd: canran y prosesau a ddogfennwyd ac a adolygwyd ar gyfer gwelliant parhaus | I’w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (Datblygiad wedi’i stopio) |
| 33 | Gweithredu argymhellion archwilio allanol y cytunwyd arnynt gan y Tîm Gweithredol, yn amserol | 100% | 75%[4] |
| 34 | Talu anfonebau dilys a diamheuol yn brydlon | 100% | 100% |
| 35 | Llai o effaith amgylcheddol defnydd ynni | I’w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (I’w ddatblygu pan fydd targedau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi) |

# Dangosyddion ar gyfer safon y systemau etholiadol

| Cyf | Diffiniad | Targed system | Diwedd gwerthoedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| 1 | Hyder mewn pleidleisio | 95% | 91% |
| 2 | Hyder wrth gofrestru i bleidleisio | 95% | 89% |

[3]Ni weithredwyd saith allan o 30 o argymhellion archwilio mewnol ar amser yn bennaf oherwydd capasiti ac argaeledd staff.
[4] Ni weithredwyd un o bedwar argymhelliad archwilio allanol ar amser. Mae'r argymhelliad archwilio sydd heb ei benderfynu yn ymwneud ag ystyried y cwmpas ar gyfer rhannu profiadau a dysgu gan gymheiriaid mewn gwledydd eraill. Mae cynhadledd Pedair Gwlad yn cael ei chynllunio ar hyn o bryd. Cymerwn unrhyw fewnwelediadau o hyn i’w defnyddio ar gyfer ein gwaith lle bo hynny’n berthnasol. O ystyried bod hwn yn PI blynyddol, ni fydd yn newid nes bod data wedi'i ddiweddaru ar gael o fis Mawrth 2024.

| Cyf | Diffiniad | Targed system | Diwedd gwerthoedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| 3 | Pleidleisiau a wrthodwyd a heb eu cynnwys yn y cyfrif ar gyfer etholiadau | Mor agos at 0% â phosibl | 1.27% |
| 4 | Bodlonrwydd â'r broses o bleidleisio | 85% | 79% |
| 5 | Bodlonrwydd gyda'r system o gofrestru i bleidleisio | 85% | 79% |
| 6 | Canfyddiad bod y broses bleidleisio yn hawdd | 95% | 82% |
| 7 | Llai o rwystrau i bleidleisio gan grwpiau sydd yn draddodiadol wedi'u tan gofrestru gan gynnwys grwpiau sydd newydd eu hetholfreinio | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (Datblygiad wedi'i stopio) |
| 8 | Llai o rwystrau i gofrestru gan grwpiau sydd yn draddodiadol wedi'u tan gofrestru gan gynnwys grwpiau sydd newydd eu hetholfreinio | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (Datblygiad wedi'i stopio) |
| 9 | Canfyddiad y bydd yr awdurdodau'n cymryd camau priodol os yw plaid wleidyddol neu ymgyrchydd yn cael ei dal yn torri'r gyfraith ar ariannu ymgyrch | 75% | 30% |
| 10 | Cytundeb neu ganfyddiad bod gwariant a chyllid pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a sefydliadau ymgyrchu eraill yn agored ac yn dryloyw | 75% | 13% |
| 11 | Nifer yr achosion o dwyll etholiadol honedig sy'n ymwneud â throseddau cyllid gwleidyddol, a adroddir i heddluoedd y DU bob blwyddyn galendr (gan gynnwys nifer yr achosion sy'n arwain at euogfarn neu rybudd) | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (Datblygiad wedi'i stopio) |
| 12 | Lefel cydymffurfio gan unigolion ac endidau rydym yn eu rheoleiddio â therfynau amser a bennir gan ddeddfwriaeth | 100% | 98.29% |
| 13 | Hyder bod ymgyrchu yn ddibynadwy | I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1) | Dd/G (Datblygiad wedi'i stopio) |
| 14 | Hyder bod etholiadau'n cael eu cynnal yn dda | 80% | 73% |
| 15 | Canfyddiad bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a chamdriniaeth | 90% | 81% |
| 16 | Lefelau cywirdeb y cofrestrau etholiadol | 95% | 86% |
| 17 | Lefelau cyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol | 95% | 83% |

| Cyf | Diffiniad | Targed system | Diwedd gwerthoedd 2022/23 |
|---|---|---|---|
| 18 | Nifer asesiadau perfformiad ffurfiol Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau sy'n pennu safonau heb eu bodloni | 0 | 0 |
| 19 | Nifer y darnau o ddeddfwriaeth etholiadol nad ydynt ar waith chwe mis cyn y mae angen eu gweithredu | 0 | 5 |
| 20 | Ymatebion prydlon gan lywodraethau perthnasol i'n hadroddiadau ar etholiadau, refferendwm ac argymhellion polisi eraill, gan gynnwys gwerthusiadau peilot. | 100% | 0 |

# Atodiad B: Mesur ein perfformiad 2024/25

## Ein dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Rhif | Diffiniad | Targed perfformiad corfforaethol |
|---|---|---|
| **Amcan strategol 1: Cofrestru a phleidleisio hygyrch** | | |
| 1 | Dylanwad ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gofrestru pleidleiswyr: Mae ychwanegiadau at gofrestrau etholiadol yn ystod ein hymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr yn bodloni neu'n rhagori ar ein targedau | Gosodir y targed erbyn diwedd mis Ionawr 2024. |
| 2 | Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid sy'n lledaenu gwybodaeth pleidleiswyr i grwpiau targed penodol, gan gynnwys y grwpiau hynny sydd newydd eu hetholfreinio | Dd/G (bydd nifer yr ymgysylltiadau yn cael ei adrodd yn flynyddol) |
| 3 | Ymgysylltu â phartneriaid a phobl ifanc i ddarparu adnoddau addysg ddemocrataidd i bobl ifanc yn unol â'n Strategaeth Ddysgu | I'w ddatblygu yn 2023/24 |
| **Amcan strategol 2: Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio** | | |
| 4 | Cyhoeddi adroddiadau rhoddion a benthyciadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau statudol | 100% |
| 5 | Cyhoeddi datganiadau o gyfrifon yn amserol | 100% |
| 6 | Penderfyniadau terfynol amserol ar achosion sy'n cael eu hymchwilio, a hysbysiad o'r canlyniad. | 90% |
| 7 | Hysbysiad amserol / cyhoeddi penderfyniadau ar sancsiynau (hysbysiadau terfynol) yn dilyn cyfnod sylwadau | 90% |
| 8 | Hysbysiad amserol o ganlyniad ceisiadau cofrestru ymgyrchwyr plaid a rhai nad ydynt yn perthyn i blaid (ar gyfer manylion newydd a newid manylion) | 90% |
| 9 | Ymatebion amserol i geisiadau am gyngor rheoleiddio ar adrodd ariannol | 90% |
| 10 | Cynhyrchion/adnoddau canllaw rheoleiddiol effeithiol yn cael eu darparu i gefnogi cydymffurfiaeth â'r gyfraith | Mae'n dibynnu ar y canllawiau sydd eu hangen ar gyfer etholiadau yn 2024/25 |

| Rhif | Diffiniad | Targed perfformiad corfforaethol |
|---|---|---|
| 11 | Ymholiadau sy'n ymwneud â chynnyrch canllaw sy'n helpu i nodi meysydd presennol a/neu newydd o'r canllawiau sy'n rhoi eglurder ychwanegol gyda'r gyfraith | 100% |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan strategol 3: Gwasanaethau etholiadol lleol gwydn** | | |
| 12 | Cyngor cywir ac amserol i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid (Prydain Fawr) | 100% |
| 13 | Cyhoeddi canllawiau cywir ac amserol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol | 100% |
| **Amcan strategol 4: Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol** | | |
| 14 | Cyhoeddi adroddiadau etholiad / refferendwm yn amserol | 100% |
| 15 | Cyhoeddi adroddiad gwerthuso cynlluniau peilot yn amserol | 100% |
| 16 | Ymatebion amserol i gynigion polisi ac ymgynghoriadau deddfwriaethol | 100% |
| **Amcan strategol 5: System etholiadol fodern a chynaliadwy** | | |
| 17 | Bodloni gofynion deddfwriaeth amgylcheddol bresennol a deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd | I’w ddatblygu pan fydd targedau’r Llywodraeth yn cael eu cyhoeddi |
| **Amcan strategol 6: Rydym yn dangos annibyniaeth ac uniondeb** | | |
| 18 | Ymatebion amserol i ohebiaeth rhanddeiliaid etholedig (AS a llywodraeth leol). | 100% |
| 19 | Ymatebion amserol i ymholiadau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg | 100% o fewn un diwrnod gwaith |
| 20 | Ymatebion amserol i ymholiadau cyhoeddus Cymraeg a Saesneg trwy alwadau, llythyrau ac e-byst | 100% |
| 21 | Ymatebion amserol i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth dilys yn y Gymraeg a'r Saesneg | 100% |
| 22 | Ymatebion amserol i Geisiadau am Fynediad at Wybodaeth dilys yn y Gymraeg a'r Saesneg | 90% |
| **Amcan strategol 7: Rydym yn sefydliad medrus lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth** | | |
| 23 | Cynnal sgôr lles staff yn yr arolwg staff | 77% |
| 24 | Cynnal sgôr ymgysylltiad staff yn yr arolwg staff | 67% |

| | | |
|---|---|---|
| 25 | Cynnal cyflawnder gwybodaeth ar amrywiaeth gweithlu | 85% |
| 26 | Parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg | 100% |
| **Amcan strategol 8: Rydym yn sefydliad sy'n dysgu lle mae gwelliant yn barhaus a defnyddir adnoddau yn effeithiol** | | |
| 27 | Fframwaith gwerth cyhoeddus: Mae cost darparu ein gwasanaethau fesul trethdalwr y flwyddyn yn aros o fewn llinell sylfaen y cytunwyd arni | 80 ceiniog |
| 28 | Gweithredu argymhellion archwilio mewnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio, yn amserol | 90% |
| 29 | Amodi ein datganiadau ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | Na (Barn archwilio ddiamod |
| 30 | Gweithredu argymhellion archwilio allanol y cytunwyd arnynt gan y Tîm Gweithredol, yn amserol | 100% |
| 31 | Talu anfonebau dilys a diamheuol yn brydlon | 100% |
| 32 | Llai o effaith amgylcheddol defnydd ynni | I'w ddatblygu pan fydd targedau'r Llywodraeth yn cael eu cyhoeddi |

# Dangosyddion ar gyfer safon y systemau etholiadol

| **Rhif** | **Diffiniad** | **Targed system** |
|---|---|---|
| 1 | Hyder mewn pleidleisio | 95% |
| 2 | Hyder wrth gofrestru i bleidleisio | 95% |
| 3 | Pleidleisiau a wrthodwyd a heb eu cynnwys yn y cyfrif ar gyfer etholiadau | Mor agos at 0% â phosibl |
| 4 | Bodlonrwydd â'r broses o bleidleisio | 85% |
| 5 | Bodlonrwydd gyda'r system o gofrestru i bleidleisio | 85% |
| 6 | Canfyddiad bod y broses bleidleisio yn hawdd | 95% |
| 7 | Canfyddiad y bydd yr awdurdodau'n cymryd camau priodol os yw plaid wleidyddol neu ymgyrchydd yn cael ei dal yn torri'r gyfraith ar ariannu ymgyrch | 75% |

| Rhif | Diffiniad | Targed system |
|---|---|---|
| 8 | Cytundeb neu ganfyddiad bod gwariant a chyllid pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a sefydliadau ymgyrchu eraill yn agored ac yn dryloyw | 75% |
| 9 | Nifer yr achosion o dwyll etholiadol honedig sy’n ymwneud â throseddau cyllid gwleidyddol, a adroddir i heddluoedd y DU bob blwyddyn galendr (gan gynnwys nifer yr achosion sy’n arwain at euogfarn neu rybudd) | Dd/G (bydd nifer yr achosion yn cael ei adrodd yn flynyddol) |
| 10 | Lefel cydymffurfio gan unigolion ac endidau rydym yn eu rheoleiddio â therfynau amser a bennir gan ddeddfwriaeth | 100% |
| 11 | Hyder bod ymgyrchu yn ddibynadwy | DDIM YN BERTHNASOL |
| 12 | Hyder bod etholiadau'n cael eu cynnal yn dda | 80% |
| 13 | Canfyddiad bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a chamdriniaeth | 90% |
| 14 | Lefelau cywirdeb y cofrestrau etholiadol | 95% |
| 15 | Lefelau cyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol | 95% |
| 16 | Nifer asesiadau perfformiad ffurfiol Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau sy'n pennu safonau heb eu bodloni | 0 |
| 17 | Nifer y darnau o ddeddfwriaeth etholiadol nad ydynt ar waith chwe mis cyn y mae angen eu gweithredu | 0 |
| 18 | Ymatebion prydlon gan lywodraethau perthnasol i'n hadroddiadau ar etholiadau, refferendwm ac argymhellion polisi eraill, gan gynnwys gwerthusiadau peilot. | 100% |

| Costau'r Senedd | 2023-24 £000oedd | 2024-25 £000oedd | Gwahaniaeth £000oedd | Gwahaniaeth % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Uniongyrchol (tâl a di-dâl)** | | | | | |
| **Deddfwriaeth (rhaglen diwygio etholiadol)** | **0** | **44** | **44** | **-100%** | Mae hyn yn cynrychioli'r adnoddau y bydd eu hangen:<br>- rheoli cydlyniad deddfwriaeth newydd sy'n cael ei hadolygu a'i bwydo yn ôl er mwyn sicrhau deddfwriaeth ymarferol ar gyfer weinyddwyr etholiadol, pleidleiswyr a phleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr<br>- datblygu, cydlynu a rheoli cynlluniau gweithredu a chyflawni manwl y bydd yn rhaid i'r Comisiwn Etholiadol eu gwneud o ganlyniad i ddiwygio etholiadol yng Nghymru.<br>- gweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i nodi a monitro risiau a phroblemau o ran cyflawni prosiectau |
| **Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau (EAG)** | | | | | |
| **Cymru** | 366 | 365 | -1 | 0% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau cefnogi datblygiad deddfwriaethau sydd i ddod, sef deddfwriaethau sylfaenol ac is-deddfwriaethau, mewn perthynas â diwygio etholiadol a diwygio'r Senedd, gan gynnwys rhoi barn arbenigol ar y tril bil, wrth gymryd i ystyriaeth barn y gymuned etholiadol ledled Cymru. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygiad canllawiau ac adnoddau ar-lein ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau, Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol; ymateb i ymholiadau am gyngor ac arweiniad a derbynnir dros y ffôn a thrwy e-bost; defnyddio ein safonau perfformiad yn ein hymgysylltiad â Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru i'w cefnogi a'u herio wrth iddynt gyflawni gweithgarwch cofrestru, gan gynnwys y canfasiad blynyddol yn 2024 ac is-etholiadau lleol; gweithio'n agos gyda'r gymuned etholiadol yng Nghymru drwy'r gwahanol grwpiau rhanddeiliaid rydym yn eu rheoli neu'n eistedd arnynt, er enghraifft Panel Pleidiau'r Senedd a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru; gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi cyngor a barn arbenigol ar y Gorchymyn Ymddygiad drafft ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026 ac unrhyw ddiwygiadau moderneiddio etholiadol pellach sy'n cael eu datblygu; cefnogi'r gymuned a reoleiddir yng Nghymru i fodloni eu gofynion statudol; paratoi Cod Ymarfer newydd ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau; paratoi Codau Ymarfer newydd ar wariant etholiadol ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr cyn etholiadau'r Senedd yn 2026.<br>Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldeb statudol drwy fodloni Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a byddwn yn arwain ac yn cefnogi'r Comisiwn ehangach i sicrhau bod ein hymrwymiadau i'r Gymraeg yn cael eu cynnal. Fel rhan o hyn byddwn yn rheoli'r broses o gyfieithu'r holl ddeunydd perthnasol mewn i Gymraeg.<br>Byddwn hefyd yn cefnogi datblygiad a darpariaeth gwybodaeth sy'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan weithio gyda sefydliadau partner sy'n cefnogi grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru yng Nghymru i hyrwyddo cofrestru pleidleiswyr.<br>byddwn yn parhau i ddatblygu ein hadnoddau addysg ddemocrataidd ar gyfer athrawon a dysgwyr yng Nghymru, gan weithio gydag ysgolion, sefydliadau ieuenctid a phartneriaid allweddol eraill i'w hyrwyddo; a byddwn yn casglu mewnbwn gan bobl ifanc trwy ein rhwydwaith llais ieuenctid i sicrhau bod ein hadnoddau addysg yn bodloni eu hanghenion yn effeithiol. Byddwn hefyd yn arwain ar y trefniadau atebolrwydd i'r Senedd a Phwyllgor y Llywydd gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu a bod terfynau amser statudol yn cael eu bodloni, gan sicrhau bod partneriaid allweddol yn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ym mhob cam. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth a Gwelliant** | 18 | 18 | 0 | -2% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â chefnogi monitro a chefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i gyflawni eu gwasanaethau cofrestru etholiadol statudol. Mae hefyd yn cynnwys parhau i adolygu'r Safonau Perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i sicrhau bod newidiadau deddfwriaethol perthnasol yn cael eu hadlewyrchu yn y fframweithiau safonau perfformiad. |
| **Canllawiau** | 45 | 45 | 0 | -1% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu cyngor mewn ymateb i ymholiadau gan Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys y gost o gefnogi'r rhaglen diwygio etholiadol yng Nghymru a diweddaru ein cyfres o ganllawiau ac adnoddau craidd ar gyfer gweinyddwyr etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid yn ôl yr angen yng ngoleuni adborth a/neu newidiadau deddfwriaethol |
| | **429** | **428** | **-1** | **0%** | |
| **Cyfreithiol** | | | | | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gyfanswm cost darparu cymorth cyfreithiol i swyddogaethau cyngor, arweiniad a rheoleiddio'r Comisiwn. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi datblygu unrhyw argymhellion polisi, yn ogystal â rhoi cyngor cyfreithiol cyffredinol a chyfredol ar ddeddfwriaeth Cymru, a chefnogi swyddogaethau'r Comisiwn fel y bônt yn ymwneud â Chymru (gan gynnwys cofrestru, rheoleiddio, polisi, gweinyddu etholiadol, llywodraethu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi cyngor ar gynigion ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru a sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni ei rwymedigaethau atebolrwydd i'r Senedd. |
| **Cyfreithiol** | **80** | **102** | **22** | **27%** | |
| **Rheoleiddio** | | | | | |
| **Cofrestru ac adrodd** | 72 | 77 | 5 | 7% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r adrodd ariannol statudol sydd ei angen gan bleidiau gwleidyddol yng Nghymru. Mae'r adroddiadau yn cynnwys adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol, a chyflwyniad Datganiad o Gyfrifon blynyddol. Mae hefyd yn cynrychioli'r gyfran honno o'r costau sy'n ymwneud ag adnewyddu manylion plaid gofrestredig yn flynyddol ac unrhyw newidiadau i fanylion cofrestru a wneir drwy gydol y flwyddyn. |
| **Monitro a gorfodi** | 65 | 73 | 8 | 12% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith cydymffurfio a gorfodi sy'n deillio o bleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys monitro gweithgarwch ymgyrchu pleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae ein gwaith monitro yn ein helpu i adnabod ymgyrchwyr a allai fod angen ein cefnogaeth i gydymffurfio. Mae hefyd yn cefnogi ein gwaith ymyrryd a gorfodi, os yw'n ofynnol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) o fewn pob ardal Heddlu i roi cyngor ac arweiniad yn ystod cyfnod yr etholiad. |
| **Cefnogaeth rheoleiddio** | 50 | 56 | 6 | 12% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu a chynnal gwariant, rhoddion a chanllawiau adrodd ar ôl y bleidlais. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth rhagweithiol ac adweithiol sydd wedi'i deilwra i anghenion rhanddeiliaid unigol. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r cyfreithiau a'r lefelau uchel o gydymffurfiaeth. Rydym yn darparu ein gwasanaeth cymorth mewn ystod o ffyrdd, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ysgrifenedig, ymateb i ymholiadau dros y ffôn ac e-bost, darparu hyfforddiant pwrpasol a chynnal gweminarau. |
| | **187** | **206** | **19** | **10%** | |
| **Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil** | | | | | |
| **Ymgyrchoedd a Hunaniaeth Gorfforaethol** | 41 | 46 | 5 | 13% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o ymgyrchoedd busnes fel arfer a gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu negeseuon ar gyfer ymgyrchoedd fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu Digidol a Phleidleiswyr** | 78 | 78 | 0 | 0% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm Cyfathrebu Digidol a thîm Ymgysylltu â Phleidleiswyr y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Byddwn yn parhau i gynnal rhwydwaith Llais Ieuenctid ar gyfer Cymru, a bydd ein partner llais ieuenctid yn parhau i wneud gwaith ymgynghori gyda phobl ifanc ledled Cymru, i gael eu hadborth a'u mewnbwn ar ein hadnoddau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn addas i'r diben. Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar ein gwaith llythrennedd gwleidyddol presennol drwy greu adnoddau sy'n annog grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn democratiaeth.<br><br>Mae hyn hefyd yn cynnwys ein gwaith cyfathrebu digidol. Mae ein tîm Cyfathrebu Digidol yn datblygu ac yn cynnal ein gwefan ddwyieithog a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gefnogi cyhoeddi gwybodaeth ar draws y Comisiwn yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ein rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr. |
| **Cyfathrebu Allanol** | 68 | 65 | -3 | -4% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau cyfathrebu allanol y Comisiwn. Mae'n cynnwys cysylltiadau cyhoeddus a chefnogaeth materion cyhoeddus i'r tîm yng Nghymru. Blaenoriaeth fydd darparu cefnogaeth i'r tîm wrth iddynt ymateb i ddeddfwriaeth diwygio etholiadol newydd sy'n mynd drwy'r Senedd, yn ogystal â chyfathrebu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd yng Nghymru ar gyhoeddi holl adroddiadau ac ymchwil y Comisiwn. |
| **Ymchwil** | 47 | 31 | -16 | -35% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau ymchwil busnes fel arfer. |
| **Polisi** | 53 | 53 | 0 | 1% | Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau polisi busnes fel arfer, gan gynnwys gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth iddynt ystyried cynigion polisi a deddfwriaeth newydd sy'n deillio o raglen diwygio etholiadol y Llywodraeth. |
| | **287** | **273** | **-14** | **-5%** | |
| **Cyfanswm Costau Uniongyrchol** | **983** | **1052** | **69** | **7%** | |
| **Costau Anuniongyrchol** | | | | | |
| **Adnodd** | 304 | 454 | 150 | 49% | 5% o gostau swyddfa gefn. Mae costau cyfleusterau'n cynnwys rhent, cyfraddau, taliadau gwasanaeth, glanhau a chyfleustodau ar gyfer y swyddfa yng Nghaerdydd. Mae costau TGCh yn cynnwys trwyddedau meddalwedd ar gyfer datrysiadau fel Office365, Windows Desktop, Webex, a datrysiadau Cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae'r costau hefyd yn cynnwys costau cynnal i ddal data yn y cwmwl Azure. Mae hyn hefyd yn cynnwys costau parhaus o ran cyllid, Adnoddau Dynol a rheoli. |
| **Dibrisiant** | 127 | 92 | -35 | -28% | 5% o'r dibrisiant ar gyfer gwariant cyfalaf, gan gynnwys uwchraddio'r system Cyllid Gwleidyddol a systemau eraill megis cyfarpar Cynadleddau fideo a gliniaduron. |
| **Dyfarniad tâl 2024-25** | | 61 | 61 | -100% | 8% o Gyfanswm y Bil Cyflog ar gyfer y flwyddyn. |
| **Cyfanswm Costau Anuniongyrchol** | **431** | **606** | **175** | **41%** | |
| **Cyfanswm Cyfraniadau** | **1,414** | **1,658** | **244** | **17%** | |

Y Comisiwn Etholiadol | The Electoral Commission

David Rees, AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Medi 2023

Annwyl Gadeirydd

**Parthed: Amcangyfrif Atodol 2023/24**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch cynghori am sawl pwysau ariannol sydd wedi codi yn 2023/24, ac felly i ofyn am **£53,900** ychwanegol gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn hon drwy'r broses amcangyfrif atodol i fodloni'r ddau bwysau canlynol.

Yn gyntaf, fel y byddwch yn gwybod, cafodd y Comisiwn Etholiadol ei dargedu gan weithredwyr gelyniaethus mewn ymosodiad seiber cymhleth. Cafodd hyn ei nodi ym mis Hydref 2022 a'i gyhoeddi i'r cyhoedd ym mis Awst 2023. Nodwyd rhai costau ychwanegol, sy'n gysylltiedig â rheoli'r systemau i wella systemau trosglwyddo diogelwch i'r cwmwl, yn y ceisiadau cyllideb ar gyfer 2023/24, sef £312,000. Gofynnwyd am y swm hwn drwy'r prif gais gan Bwyllgor y Llefarydd yn Senedd y DU. Fodd bynnag, nid hwn oedd yr unig gost a oedd wedi'i briodoli'n uniongyrchol i'r cynnydd yn ein seiberdiogelwch, ac yn 2023/24 byddwn hefyd yn mynd i gostau rhedeg o £308,000 pellach. O'r swm hwn, rydym yn ceisio cyfraniad o 5%, sef **£15,400**, gan y Senedd. Bydd y gweddill yn cynnwys 8% gan Senedd yr Alban ac 87% gan Senedd y DU.

Nid y Comisiwn oedd yr unig sefydliad seilwaith cenedlaethol a dargedwyd, gan ein bod yn ymwybodol o dargedau mor amrywiol â'r Post Brenhinol, y swyddfa cofnodion troseddol ACRO, a'r Heddlu Metropolitanaidd. Mae hyn yn tynnu sylw at fregusrwydd cyrff sector cyhoeddus i ymosodwyr cymhellol a sensitifrwydd eithafol y data sydd ganddynt. Felly, mae'n rhaid i ni dderbyn camau yn y dyfodol i leihau'r risgiau o feddalwedd wystlo, ymosodiadau gan drydydd parti a theilwra cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i dorri systemau critigol.

Yn ail, mae'r dyfarniadau tâl ar gyfer 202/24 wedi bod yn uwch na'r lefel a ddisgwyliwyd pan wnaethom gyflwyno ein hamcangyfrif gwreiddiol. Mae'r Comisiwn wedi alinio ei setliad cyflog ag un y Gwasanaeth Sifil ehangach a ganiataodd dyfarniadau tâl cyfartalog hyd at 4.5% gyda hyblygrwydd pellach i wneud dyfarniadau hyd at 0.5% ychwanegol, wedi'u targedu at fandiau cyflog is. Yn ogystal â hyn, ar gyfer 2023/24, gwnaethom hefyd alinio ein hunain â'r Canllawiau Cylch Cyflog wrth wneud taliad anghyfunol sefydlog o £1,500 fesul cyflogai llawn amser ar gyfer y rheiny mewn swyddi dirprwyedig, yn amodol ar gymhwysedd. Yn wreiddiol roedd y Comisiwn wedi cyllidebu ar gyfer setliad cyflog o 4%

(£553,000), ond effaith gyfun yr uchod yw cost gyffredinol ychwanegol o £1,014,000. Yr effaith ar y gais am gyllideb atodol ar gyfer y Senedd yw tua 8.3% o’r swm hwn, sef **£38,500**.

Sylwch nad oedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn cymryd i ystyriaeth symiau wrth gefn pellach y gellid eu defnyddio i leihau pwysau'r newidiadau o ganlyniad i’r ymosodiad seiber neu'r dyfarniad cyflog, ac mae mentrau eraill i leihau costau yn cael eu defnyddio i wrthbwyso pwysau eraill gan gynnwys newidiadau i wella capasiti.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a’r Pwyllgor am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithgareddau’r Comisiwn yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir,



Shaun McNally CBE

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Etholiadol

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: CG/PO/361/2023

David Rees AS
Cadeirydd
Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru

seneddPLL@senedd.cymru

24 Hydref 2023

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyrau dyddiedig 3 Hydref ataf i a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ynglŷn ag amcangyfrif ariannol atodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24 a'r cynigion cyllid ar gyfer 2024-25, mewn perthynas â'i waith ar etholiadau datganoledig Cymru. Rwy'n ateb fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am etholiadau. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, gan fod gwariant allan o Gronfa Gyfunol Cymru a gweinyddu etholiadau gan yr awdurdodau lleol o ddiddordeb iddi.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn bartner gwerthfawr wrth ymgymryd â gwaith allgymorth ac ymgysylltu. Mae ymrwymiad y Comisiwn Etholiadol i lunio adnoddau addysg sy'n gweithio'n benodol i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru wedi ein calonogi'n fawr. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda nhw wrth iddynt gyflwyno'r rhain i'r ysgolion a byddwn yn eu cefnogi gyda'u hymdrechion. Rydym yn gwybod bod rhanddeiliaid mewn timau gwasanaethau etholiadol ym mhob cwr o Gymru yn gwerthfawrogi'r adnoddau cyfathrebu sy'n cael eu llunio gan y Comisiwn Etholiadol yn fawr, ac rydym yn falch o weld y bydd yr adnoddau hyn yn parhau i gael eu datblygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Fel gyda'n Grant Ymgysylltu â Democratiaeth, rydym yn cefnogi'r Comisiwn Etholiadol i barhau â'i waith i godi ymwybyddiaeth a chofrestru etholwyr yn ystod y blynyddoedd hynny pan na gynhelir etholiad datganoledig.

O ran mesurau perfformiad 2022-23, rydym yn nodi'r diffyg o safbwynt cyflawni Amcan strategol 1.1 (dylanwad ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gofrestru pleidleiswyr) a'r camau gweithredu i ddefnyddio'r ddealltwriaeth newydd a fydd wedi'i meithrin yn sgil hyn wrth gynllunio ymgyrchoedd yn y dyfodol. O ran Amcan strategol 1.2 (ymgysylltu ag awdurdodau lleol), byddai'n ddiddorol deall lefel yr ymgysylltu o ganlyniad i'r 18 o rifynnau o'r cylchlythyr Roll Call, a deall hefyd a yw pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn defnyddio'r adnoddau. Yn yr un modd, gydag Amcan strategol 1.3, nid oes digon o fanylion i asesu pa mor llwyddiannus fu hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran Amcanion strategol 1.2 ac 1.3, gall fod yn ddefnyddiol i'r Comisiwn Etholiadol ystyried ychwanegu rhagor o fanylion i'r targedau. Dylid hefyd ystyried ai targedau meintiol neu ansoddol y dylid eu gosod. Efallai na fydd modd asesu llwyddiant drwy werth rhifiadol yn unig. Gall adrodd ansoddol – drwy lunio adroddiad ymgysylltu byr, sy'n cynnwys y mesurau rhifiadol sydd ar gael, astudiaethau achos ac adnoddau esboniadol – gynnig dealltwriaeth well yn erbyn yr amcan hwn.

Gallaf gadarnhau bod y gweithgareddau a ddisgrifiwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif atodol ar gyfer 2023-24 yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a'u bod yn fforddiadwy o fewn y cronfeydd a drosglwyddwyd o Drysorlys Ei Fawrhydi. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw at y sicrwydd blaenorol a roddwyd gan y Comisiwn fod rhagdybiaethau cyflog realistig eisoes wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif o sylwedd ar gyfer 2023-24. Rwy'n tybio bod hwn yn bwynt yr ydych eisoes yn bwriadu ei godi wrth graffu ar gais y gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn yn eich cyfarfod ar 7 Tachwedd.

Yn yr un modd, rwy'n nodi bod yr amcangyfrif a gyflwynwyd ar gyfer 2024-25 yn cynrychioli cynnydd pellach o £244,000 ar gyllid y flwyddyn bresennol, neu gynnydd o bron i 33% o'i gymharu â'r cynllun pum mlynedd blaenorol. O ystyried y swm canlyniadol negyddol mewn perthynas â chyllid y Comisiwn Etholiadol yn yr Adolygiad o Wariant yn 2021, mae'r ffigur y gofynnwyd amdano gan y Comisiwn ar gyfer 2024-25 yn rhagori ar y cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwariant y Comisiwn.

I roi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer ystyried cyllidebau 2023-24 a 2024-25, ym mis Awst, ysgrifennodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn nodi'r heriau economaidd a chyllidol sylweddol a nodwyd eisoes yn y flwyddyn ariannol bresennol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod setliad ariannol presennol Cymru ymhell o fod yn agos at yr hyn sydd ei angen i fodloni'r heriau hyn o'r cyllidebau presennol. Mae'r cyllidebau hynny wedi cael eu herydu gan amrywiol bwysau o ganlyniad i chwyddiant.

Mae'r datganiadau cyfredol gan Lywodraeth y DU yn nodi'n glir fod yn rhaid rheoli dyfarniadau cyflog o fewn y setliadau presennol ar gyfer Adrannau Whitehall ac ni fydd unrhyw gyllid canlyniadol ar gael i Gymru. O ganlyniad, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau cyllidebol anodd i amsugno costau dyfarniadau cyflog o fewn ei chyllideb bresennol, y nodwyd ei chanlyniadau yn ystod y flwyddyn gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 18 Hydref. Mae cyrff eraill sy'n cael eu hariannu o Gronfa Gyfunol Cymru yn gorfod gwneud pob ymdrech i amsugno costau dyfarniadau cyflog pan fo hynny'n bosibl. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno ystyried y byddai cytuno ar gynnydd yn 2024-25 yn golygu gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i gyrff eraill a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru, yn arbennig Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl, felly, y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn am sicrwydd bod ystyriaeth drylwyr wedi'i rhoi i'r holl arbedion effeithlonrwydd posibl er mwyn lliniaru pwysau costau cyllidebol. Yn benodol, o'r pedwar maes o angen ychwanegol yn 2024-25, mae'r pennawd sy'n cyfeirio at gyflawni'r rhaglen o ddiwygio etholiadol yn cyfeirio at reoli effaith yr ymwahanu cynyddol yng Nghymru rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a yw'r cynnydd a welwyd o safbwynt hyn wedi disgyn ar y Senedd yn unig mewn perthynas â chyfrifoldebau datganoledig y Comisiwn, neu ar Senedd y DU hefyd mewn perthynas â'r newidiadau a wnaed ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl.

Yn amodol ar adroddiad ffurfiol y Pwyllgor, yn dilyn craffu ac ar ôl cael cytundeb y Senedd i gynnwys y cais atodol yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24 am £53,900 yng nghynnig y gyllideb atodol, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i gytuno ar gynllun talu ar gyfer y swm atodol ac mewn perthynas â'r cyllid y cytunwyd arno gan y Pwyllgor ar gyfer 2024-25. Os na fydd y Pwyllgor yn gallu gosod ei adroddiad craffu mewn perthynas â’r cais hwn cyn i gynnig y gyllideb atodol gael ei gyflwyno, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ysgrifennu unwaith eto ataf i a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gan roi arwydd a yw'r Pwyllgor yn bwriadu cytuno ar yr amcangyfrif ychwanegol.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Y Comisiwn Etholiadol The Electoral Commission

David Rees AS
Dirprwy Llywydd
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

8 Awst 2023

Annwyl Cadeirydd,

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi bod y Comisiwn Etholiadol wedi bod yn destun ymosodiad seiber cymhleth.

Cafodd y digwyddiad ei nodi gyntaf ym mis Hydref 2022 ar ôl i weithgarwch amheus gael ei ganfod ar ein systemau. Daeth yn glir bod gweithredwyr gelyniaethus wedi cael mynediad i'r system ym mis Awst 2021. Ers hynny mae'r Comisiwn wedi gweithio gyda arbenigwyr diogelwch allanol a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol er mwyn ymchwilio a diogelu ei systemau.

Yn ystod yr ymosodiad seiber, roedd gweithredwyr gelyniaethus yn ein systemau ac roedd ganddynt fynediad i weinyddion y Comisiwn a oedd yn dal ein e-byst, ein systemau rheoli, a chopïau o gofrestrau etholiadol. Credwn y cyrchwyd ein system e-bost a'r cofrestrau etholiadol, ond nid ydym yn gwybod os cafodd unrhyw ddata ei gopïo neu ei lawrlwytho.

Roedd y cofrestrau a ddaliwyd yn ystod yr ymosodiad seiber yn cynnwys enw a chyfeiriad unrhyw un yn y DU a gofrestrodd i bleidleisio rhwng 2014 a 2022, yn ogystal ag enwau y rheiny a gofrestrodd fel pleidleiswyr tramor. Nid oedd y cofrestrau'n cynnwys manylion etholwyr dienw. Er bod y data a gynhwysir yn y cofrestrau etholiadol yn gyfyngedig, ac mae llawer ohono eisoes yn gyhoeddus, rydym yn deall y pryder y gallai hyn ei achosi. Mae'n ddrwg gennym nad oeddem yn gallu atal yr ymosodiad seiber hwn. Ers ei nodi rydym wedi cymryd camau, gyda chymorth arbenigwyr, i wella diogelwch, gwydnwch, a dibynadwyedd ein systemau TG.

Yn unol â gofynion y gyfraith, hysbysodd y Comisiwn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr o nodi y gallai data ar ei systemau fod wedi cael ei gyrchu, ac heddiw mae wedi cyhoeddi hysbysiad ffurfiol.

Mae proses ddemocrataidd y DU wedi'i gwasgaru'n sylweddol ac mae agweddau allweddol ohoni yn parhau i fod yn seiliedig ar ddogfennaeth bapur a chyfrif. Mae hyn yn

golygu y byddai'n anodd iawn i ddefnyddio ymosodiad seiber er mwyn dylanwadu ar y broses. Serch hynny, mae'r ymosodiad hwn yn amlygu bod y broses ddemocrataidd a'i sefydliadau yn parhau i fod yn darged i weithredwyr gelyniaethus ar-lein. Byddwn yn parhau i fod yn wyliadwrus o'r risgiau a'r broses o amgylch ein hetholiadau a byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau'r DU a'r gymuned etholiadol ehangach i ddiogelu diogelwch y system.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch ag Ella Downing, Uwch Swyddog Cyfathrebu at edowning@electoralcommission.org.uk.

Yn gywir,



Shaun McNally
Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol

David Rees MS
Deputy Llywydd
Chair, Llywydd's Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

8 August 2023

Dear Chair,

I am writing to inform you that the Electoral Commission has been the subject of a complex cyber-attack.

The incident was first identified in October 2022 after suspicious activity was detected on our systems. It became clear that hostile actors had first accessed the systems in August 2021. The Commission has since worked with external security experts and the National Cyber Security Centre to investigate and secure its systems.

During the cyber-attack, hostile actors were active in our systems and had access to the Commission's servers which held our email, our control systems, and copies of the electoral registers. We believe our email system and the electoral registers were accessed, but we do not know if any data was copied or downloaded.

The registers held at the time of the cyber-attack include the name and address of anyone in the UK who registered to vote between 2014 and 2022, as well as the names of those registered as overseas voters. The registers did not include the details of anonymous voters. While the data contained in the electoral registers is limited, and much of it is already in the public domain, we understand the concern this may cause. We regret we could not prevent this cyber-attack. Since identifying it we have taken steps, with the support of specialists, to improve the security, resilience, and reliability of our IT systems.

In line with requirements under the law, the Commission notified the Information Commissioner's Office within 72 hours of identifying that data on its systems may have been accessed and has today published a formal notification.

The UK's democratic process is significantly dispersed and key aspects of it remain based on paper documentation and counting. This means it would be very hard to use a cyber-attack to influence the process. Nevertheless, this attack highlights that the democratic process and its institutions remain a target for hostile actors online. We will remain vigilant to the risks and process around our elections and will continue to work with the UK's governments and the wider electoral community to safeguard the safety of the system.

If you require further information, please contact Ella Downing, Senior Communications Adviser at edowning@electoralcommission.org.uk in the first instance.

Your sincerely,



Shaun McNally
Chief Executive of the Electoral Commission

Y Comisiwn Etholiadol — The Electoral Commission

David Rees AS
Dirprwy Llywydd
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Medi 2023

Annwyl Cadeirydd,

**Adroddiadau etholiad Mai 2023 y Comisiwn Etholiadol**

Mae'n bleser rhannu adroddiadau'r Comisiwn ar etholiadau lleol Mai 2023 yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, sydd wedi'u cyhoeddi heddiw.

Ar y cyfan, canfuom fod yr etholiadau'n cael eu cynnal yn dda a bod gan bleidleiswyr hyder yn y system. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi sawl her i bleidleiswyr, gweinyddwyr ac ymgyrchwyr. Mae angen gweithredu ar frys mewn rhai meysydd cyn etholiad cyffredinol nesaf Llywodraeth y DU lle byddai disgwyl nifer uwch o bleidleiswyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn dueddol o bleidleisio mewn etholiadau lleol ac sydd felly'n debygol o fod yn llai cyfarwydd â newidiadau diweddar.

Roedd y gofyniad ID pleidleiswyr yn rhwystr i rai pleidleiswyr ac mae'n debygol o gael mwy o effaith ar etholiadau lle mae nifer uwch o bobl yn pleidleisio. Felly, rydym yn cyflwyno nifer o argymhellion penodol i Lywodraeth y DU eu hystyried, a fyddai'n ehangu hygyrchedd a chymorth i bleidleiswyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adolygu'r rhestr o ddogfennau adnabod a dderbynnir i nodi a ellid ychwanegu dogfennau ychwanegol
- archwilio a ellir gwthio'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am yr ID am ddim yn nes at y diwrnod pleidleisio
- darparu opsiynau ar y diwrnod pleidleisio i bleidleiswyr heb ID derbyniol, megis pleidleisiwr cofrestredig arall yn gallu 'tystio' pwy ydynt.

Mae gallu a gwytnwch timau etholiadau yn parhau i fod yn bryder sylweddol ar gyfer y broses barhaus o gynnal etholiadau effeithiol. Bydd newidiadau sy'n dod i rym o ganlyniad i'r Ddeddf Etholiadau yn ychwanegu gweinyddiaeth a chymhlethdod pellach i system sydd eisoes dan bwysau. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn sicrhau bod dibyniaethau a risgiau cyflawni yn cael eu rheoli'n ofalus ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

The Electoral Commission
Companies House
Crown Way
Cardiff CF14 3UZ

Ffôn/Tel: 0333 103 1929
infowales@electoralcommission.org.uk
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
electoralcommission.org.uk

Os hoffech drafod canfyddiadau'r adroddiad yn fanylach, byddem yn hapus i gysylltu â'ch swyddogion i drefnu cyfarfod.

Yr eiddoch yn gywir,



Rhydian Thomas,
Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru

David Rees MS
Deputy Llywydd
Chair, Llywydd's Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

13 September 2023

Dear Chair,

**Electoral Commission May 2023 election reports**

I am pleased to share the Commission's reports on the May 2023 local elections in England and Northern Ireland, which have been published today.

Overall, we found the elections were well run and voters have confidence in the system. However, the report also identifies several challenges for voters, administrators and campaigners. Urgent action is needed in some areas ahead of the next UK Government general election where a higher number of voters would be expected, including those who do not tend to vote at local elections and so are likely to be less familiar with recent changes.

The voter ID requirement posed a barrier to some voters and is likely to have a larger impact at higher turnout polls. As such, we are putting forward a number of specific recommendations for the UK Government to consider, which would expand accessibility and support for voters. These include:

- reviewing the list of accepted ID to identify if additional documents could be added
- exploring whether the deadline for applying for the free ID can be pushed closer to polling day
- providing options on polling day for voters without accepted ID, such as another registered voter being able to 'vouch' for their identity.

The capacity and resilience of elections teams remains a significant concern for the ongoing delivery of well-run elections. Incoming changes from the Elections Act will add further complexity and administration to a system already under strain. We are recommending that the UK Government ensures that dependencies and delivery risks are carefully managed for future changes.

If you would like to discuss the report's findings in more detail, we would be happy to liaise with your officials to arrange a meeting.

Yours sincerely,



Rhydian Thomas,
Head of the Electoral Commission, Wales

Y Comisiwn Etholiadol | The Electoral Commission

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Medi 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Adrodd ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol**

Rwy’n falch i allu rhoi copi ymlaen llaw i chi o adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar gywirdeb a chyflawn

wydd y cofrestrau etholiadol, cyn iddo gael ei gyhoeddi dydd Llun.

Dengys ein dadansoddiad bod bron i 400,000 o bobl ledled Cymru naill ai ar goll neu wedi’u cofrestru i bleidleisio yn anghywir,sy’n golygu nad oes ganddynt lais mewn etholiadau. Mae rhai grwpiau penodol o bobl yn sylweddol yn llai tebygol o fod wedi’u cofrestru i bleidleisio yn gywir, yn enwedig pobl ifanc, pobl sy’n rhentu’n breifat a'r rhai sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar.

Gwnaeth yr astudiaeth o gofrestrau 2022 ganfod y canlynol yng Nghymru:


- Roedd y gofrestr llywodraeth leol yn 87% yn gyflawn ac yn 89% yn gywir.
- Roedd y gofrestr seneddol yn 88% yn gyflawn ac yn 90% yn gywir.

Mae tystiolaeth o'n hymchwil, a gynhaliwyd dros fwy na degawd, yn dangos bod hon yn broblem hirsefydlog. Mae'n annhebygol felly y bydd lefelau cywirdeb a chyflawnrwydd - ac felly nifer y bobl gymwys sy'n gallu dweud eu dweud mewn etholiadau - yn gwella'n sylweddol heb newidiadau mawr i'r system cofrestru etholiadol.

Mae'r Comisiwn yn parhau i argymell bod llywodraethau Cymru a'r DU yn pasio deddfwriaeth i greu pyrth cyfreithiol clir i adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus rannu data ar bleidleiswyr a allai fod yn gymwys gyda gweinyddwyr etholiadol. Byddai dull cyson rhwng llywodraethau'n sicrhau bod newidiadau'n cael eu datblygu a'u cyflawni mewn ffordd sy'n ei gwneud mor syml â phosibl i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a sefydliadau ffynhonnell ddata, ac yn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael eu cynnwys yn gywir yn y cofrestrau ar gyfer pob math o etholiadau y maent yn gymwys i bleidleisio ynddynt.

Gwyddwn fod moderneiddio a diwygio etholiadol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac rydym yn croesawu cynigion i beilota cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig ar gyfer etholiadau datganoledig. Gwnaethom amlygu'r prif ystyriaethau ar gyfer y gwaith hwn yn gynharach eleni yn ein hymateb i'r papur gwyn ar Ddiwygio a Gweinyddiaeth Etholiadol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth a'r gymuned etholiadol ehangach i gefnogi datblygiad pellach y maes gwaith hwn.

Yr eiddoch yn gywir,



Rhydian Thomas,
Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru

Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

David Rees MS
Chair, Llywydd's Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

15 September 2023

Dear Chair,

**Report on the accuracy and completeness of the electoral registers**

I am pleased to provide you with an advance copy of the Electoral Commission's report on the accuracy and completeness of the electoral registers, ahead of publication on Monday.

Our analysis shows that almost 400,000 people across Wales are either missing or incorrectly registered to vote, meaning they don't have a voice in elections. Some specific groups of people are significantly less likely to be correctly registered, particularly young people, private renters, and those who have recently moved home.

The study of the 2022 registers found that in Wales:


- The local government register was 87% complete, and 89% accurate
- The parliamentary register was 88% complete, and 90% accurate

Evidence from our research, carried out over more than a decade, shows that this is a longstanding problem. It is therefore unlikely that levels of accuracy and completeness – and therefore the number of eligible people able to have their say at elections – will significantly improve without major changes to the electoral registration system.

The Commission continues to recommend that both the Welsh and UK governments pass legislation to create clear legal gateways for government departments and public bodies to share data on potentially eligible voters with electoral administrators. A consistent approach between governments would ensure that changes are developed and delivered in a way which makes it as straightforward as possible for EROs and data source organisations, and ensures that voters are accurately included in the registers for all types of elections they are eligible to vote in.

We know that electoral modernisation and reform is a priority for the Welsh Government and welcome proposals to pilot automatic voter registration for devolved elections. We highlighted key considerations for this work earlier this year in our response to the Electoral Reform and Administration white paper. We stand ready to work with the Government and the wider electoral community to support further development of this important area of work.

Yours sincerely,



Rhydian Thomas,
Head of the Electoral Commission, Wales

Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission


# Cofrestrau etholiadol Rhagfyr 2022 yng Nghymru

Dylid darllen y daflen ffeithiau hon ar y cyd â'r prif adroddiad: Adroddiad Cywirdeb a Chyflawnrwydd y Comisiwn Etholiadol 2022, Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Dengys y canlyniadau o'r don hon fod y sefyllfa yng Nghymru ar ym mis Rhagfyr 2022 fel a ganlyn:

- Roedd cofrestrau llywodraeth leol 87% yn gyflawn ac 89% yn gywir
- Roedd cofrestrau seneddol 88% yn gyflawn a 90% yn gywir

**Ffigur 1.1 Cyflawnrwydd a chywirdeb cofrestrau llywodraeth leol a seneddol yng Nghymru**




*Sylfaen (amhwysol): Seneddol: Cyflawnrwydd 1,410; Cywirdeb 1,429, Llywodraeth Leol: Cyflawnrwydd 1,485; Cywirdeb 1,461*

## Cyflawnrwydd

Mae cyflawnrwydd y gofrestr llywodraeth leol a'r gofrestr seneddol yng Nghymru wedi gwella ers 2018, ac mae'r ddwy wedi cynyddu chwe phwynt canran. Mae'r gofrestru llywodraeth leol bellach 87% yn gyflawn (o gymharu ag 81% yn 2018) ac mae'r gofrestr seneddol 88% yn gyflawn (o gymharu ag 82%).

## Mathau o wallau cyflawnrwydd

Ystyr cyflawnrwydd yw bod pawb sy'n gymwys i'w cynnwys ar y gofrestr etholiadol wedi'u cofrestru. Mae'n cyfeirio at ganran y bobl gymwys sydd wedi'u cofrestru yn eu cyfeiriad presennol.

Gellir nodi amrywiaeth o wallau wrth ddadansoddi cyflawnrwydd y gofrestr etholiadol. Caiff y rhain eu categoreiddio'n wallau “mawr” neu'n wallau “bach”.

Gellir rhannu gwallau mawr yn dri chategori gwahanol:

A. Canran y preswylwyr cymwys nad ydynt wedi'u cynnwys ar y gofrestr yn eu cyfeiriad presennol ar hyn o bryd (h.y. y cyfeiriad a arolygwyd).

B. Gall gwallau sy'n ymwneud ag enw rhywun rwystro unigolyn rhag bwrw ei bleidlais mewn gorsaf bleidleisio sy'n golygu nad yw wedi'i gofrestru mewn gwirionedd (e.e. yr enw cyntaf neu'r cyfenw)

C. Gwallau a fyddai'n rhwystro etholwr cymwys rhag bwrw ei bleidlais drwy awgrymu nad yw'n gymwys (e.e. dynodwr cenedligrwydd anghywir ar y gofrestr seneddol neu ddyddiad geni cofnodedig sy'n hwyrach na phen-blwydd cyrhaeddwr).

Gwallau bach yw'r rhai na fyddent yn rhwystro rhywun rhag bwrw ei bleidlais (er enghraifft, cofnod â gwall sillafu). Mae gwallau cyflawnrwydd yng Nghymru yn weddol debyg i Brydain Fawr yn ei chyfanrwydd. Mae'r gyfran uchaf o wallau mawr o ganlyniad i'r ffaith nad yw preswylwyr cymwys wedi'u cofrestru yn eu cyfeiriad presennol o hyd, yn debyg i 2018. Ceir gwallau bach mewn perthynas ag 8.8% o breswylwyr cymwys yng Nghymru.

**Tabl 1: Mathau o wallau cyflawnrwydd ar y cofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru**

| | Cymru | | Prydain Fawr | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2022** | **2018** | **2022** |
| **Cyfanswm y gwallau mawr** | **18.5%** | **13.2%** | **16.9%** | **14.1%** |
| **Gwallau mawr – (a)** Yn byw yn y cyfeiriad ond heb ei enwi ar y gofrestr | **18.2%** | **12.4%** | **16.5%** | **13.4%** |
| **Gwallau mawr – (b)** | **0.3%** | **0.3%** | **0.4%** | **0.7%** |
| Enw cyntaf a/neu gyfenw yn anghywir ar y gofrestr | 0.3% | 0.3% | 0.5% | 0.7% |
| Dim enw cyntaf a/neu gyfenw ar y gofrestr | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Enw canol yn anghywir ar y gofrestr (lle y bo angen) | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| **Gwallau mawr – (c)** | **0.0%** | **0.5%** | **0.0%** | **0.1%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dynodwr cenedligrwydd anghywir sy'n eithrio o gofrestr | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Dyddiad geni ar y gofrestr yn hwyrach na'r dyddiad geni gwirioneddol | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.1% |
| **Cyfanswm y gwallau bach** | **11.5%** | **8.8%** | **8.2%** | **8.6%** |
| Enw cyntaf/cyfenw ar y gofrestr wedi'i gamsillafu | 0.9% | 0.8% | 1.3% | 0.6% |
| Enw cyntaf/cyfenw ar y gofrestr yn anghyflawn | 0.6% | 0.3% | 0.5% | 0.3% |
| Enw canol ar goll o'r gofrestr | 9.1% | 6.4% | 7.2% | 6.5% |
| Enw canol neu lythrennau cyntaf wedi'u camsillafu neu'n anghyflawn ar y gofrestr | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.2% |
| Enw canol neu lythrennau cyntaf yn anghywir ar y gofrestr | 0.0% | 0.2% | 0.1% | 0.2% |
| Rhywun nad oes ganddo enw canol ond mae enw canol ar y gofrestr (ymatebwyr yn unig) | 0.6% | 0.6% | 1.3% | 1.1% |
| Cyfenw blaenorol yw'r cyfenw, neu tybir mai cyfenw blaenorol ydyw | 0.3% | 0.5% | 0.5% | 0.3% |

*Sylfaen (amhwysol): Rhagfyr 2018: Cymru – 1,368; Prydain Fawr – 9,679*

*Sylfaen (amhwysol): Rhagfyr 2022: Cymru – 1,485; Prydain Fawr – 9,495*

Mae patrymau wedi aros yr un peth ers 2018 ymhlith grwpiau demograffig allweddol, gyda lefelau cofrestru is ymhlith pobl iau, rhentwyr preifat ac awdurdod lleol a'r rheini sydd wedi symud i'w cyfeiriad yn ddiweddar. Fel y dangosir yn Nhabl 2, ymhlith pobl iau, rhentwyr preifat a'r rheini sy'n perthyn i grŵp cymdeithasol DE y gwelwyd y cynnydd mwyaf sylweddol.

**Tabl 2: Cyflawnrwydd y gofrestr llywodraeth leol yn ôl nodweddion allweddol yng Nghymru**

| | | Cymru | | Prydain Fawr | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2018 | 2022 | 2018 | 2022 |
| **Trefol/gwledig** | Trefol | 81% | **87%** | 83% | **85%** |
| | Gwledig | 81% | **86%** | 85% | **89%** |
| **Rhywedd** | Gwryw | 80% | **86%** | 83% | **85%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Benyw | 82% | **87%** | 83% | **87%** |
| **Oedran** | 18-34 | 66% | **79%** | 68% | **71%** |
| | 35-44 | 78% | **82%** | 82% | **84%** |
| | 45-54 | 85% | **90%** | 90% | **91%** |
| | 55-64 | 92% | **91%** | 90% | **94%** |
| | 65+ | 92% | **97%** | 94% | **96%** |
| **Deiliadaeth** | Yn eiddo i berchen-feddianwyr | 91% | **94%** | 91% | **95%** |
| | Prynu gyda morgais/ rhanberchnogaeth | 78% | **84%** | 86% | **88%** |
| | Pobl sy'n rhentu'n breifat | 60% | **73%** | 58% | **65%** |
| | Pobl sy'n rhentu gan yr awdurdod lleol | 86% | **73%** | 84% | **79%** |
| | Pobl sy'n rhentu gan Gymdeithas Dai | 76% | **82%** | 82% | **79%** |
| **Grŵp economaidd-gymdeithasol** | AB | 87% | **87%** | 86% | **89%** |
| | C1 | 82% | **86%** | 85% | **86%** |
| | C2 | 82% | **89%** | 80% | **86%** |
| | DE | 76% | **85%** | 80% | **81%** |
| **Oedolion yn y cartref** | 1 | 82% | **90%** | 86% | **86%** |
| | 2 | 83% | **87%** | 84% | **88%** |
| | 3 i 5 | 77% | **85%** | 81% | **82%** |
| | 6+ | | | 78% | **79%** |
| **Amser yn byw yn y cyfeiriad** | Hyd at flwyddyn | 45% | **53%** | 36% | **39%** |
| | 1-2 flynedd | | | 71% | **72%** |
| | 2-5 mlynedd | 83% | **83%** | 84% | **82%** |
| | 5-10 mlynedd | 83% | **86%** | 90% | **91%** |
| | 10-16 mlynedd | 88% | **91%** | 88% | **92%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 16 mlynedd + | 91% | **95%** | 92% | **95%** |
| **Cenedligrwydd** | Y DU a Gweriniaeth Iwerddon | 82% | **88%** | 86% | **87%** |
| | Undeb Ewropeaidd | 58%* | **70%*** | 54% | **70%** |
| | Y Gymanwlad | | | 62% | **66%** |

*Sylfaen (amhwysol): Rhagfyr 2018: Cymru – 1,368; Prydain Fawr – 9,679*

*Sylfaen (amhwysol): Rhagfyr 2022: Cymru – 1,485; Prydain Fawr – 9,495 * Rhybudd – meintiau sylfaen bach.*

## Cywirdeb

Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o wallau a welwyd ar gofrestrau llywodraeth leol mis Rhagfyr 2022. O ran Prydain Fawr yn ei chyfanrwydd, mae'r gyfran uchaf o wallau cywirdeb mawr (sef y gwallau hynny a fyddai'n rhwystro rhywun rhag pleidleisio neu'n galluogi rhywun i bleidleisio pan na ddylai gael gwneud hynny) yn ymwneud â chofnodion lle nad yw'r unigolyn ar y gofrestr yn byw yn y cyfeiriad mwyach (9.3%). Yng Nghymru, mae 9.0% o gofnodion yn cynnwys gwallau bach na fyddent yn rhwystro rhywun rhag pleidleisio.

**Tabl 3: Mathau o wallau cywirdeb ar gofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru**

| | Cymru | | Prydain Fawr | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018 | 2022 | 2018 | 2022 |
| **Cyfanswm y gwallau mawr** | **8.8%** | **10.8%** | **11.2%** | **11.7%** |
| **Gwallau mawr – (a)** Neb o'r un enw yn byw yn y cyfeiriad | **8.2%** | **9.3%** | **10.4%** | **9.8%** |
| **Gwallau mawr – (b)** | **0.2%** | **0.6%** | **0.7%** | **1.1%** |
| Enw cyntaf a/neu gyfenw yn anghywir ar y gofrestr | 0.2% | 0.3% | 0.4% | 0.7% |
| Dim enw cyntaf a/neu gyfenw ar y gofrestr | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Unigolyn o'r DU/Iwerddon/y Gymanwlad a ddynodwyd fel gwladolyn tramor cymwys yn bresennol | 0.0% | 0.3% | 0.3% | 0.5% |
| **Gwallau mawr – (c)** | **0.4%** | **0.9%** | **0.5%** | **0.7%** |
| Mae'r enw ar y gofrestr yn cyfateb i enw anghymwys ar yr arolwg | 0.2% | 0.0% | 0.2% | 0.3% |
| Cyrhaeddwyr - dyddiad geni ar goll neu'n anghywir | 0.0% | 0.8% | 0.1% | 0.2% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwladolyn tramor cymwys â dynodwr coll | 0.2% | 0.1% | 0.2% | 0.2% |
| **Cyfanswm y gwallau bach** | **7.9%** | **9.0%** | **9.1%** | **8.8%** |
| Enw cyntaf/cyfenw ar y gofrestr wedi'i gamsillafu | 0.6% | 0.9% | 1.2% | 0.7% |
| Enw cyntaf/cyfenw ar y gofrestr yn anghyflawn | 0.4% | 0.3% | 0.5% | 0.3% |
| Enw canol ar goll o'r gofrestr | 6.1% | 6.6% | 6.4% | 6.6% |
| Enw canol neu lythrennau cyntaf wedi'u camsillafu neu'n anghyflawn ar y gofrestr | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.2% |
| Enw canol neu lythrennau cyntaf yn anghywir ar y gofrestr | 0.0% | 0.2% | 0.1% | 0.2% |
| Nid oes gan yr unigolyn enw canol ond mae enw canol ar y cofrestrau (ymatebwyr yn unig) | 0.6% | 0.6% | 1.3% | 1.1% |
| Cyfenw blaenorol yw'r cyfenw, neu tybir mai cyfenw blaenorol ydyw cyfenw | 0.2% | 0.5% | 0.5% | 0.3% |
| Enw cyntaf/canol neu gyfenw mewn trefn wahanol ar y gofrestr | 0.0% | 0.0% | 0.1% | 0.0% |
| Dyddiad geni cyrhaeddwr yn gynharach ar y gofrestr | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

*Sylfeini (amhwysol): Prydain Fawr: Rhag 2022 (9,479); Rhag 2018 (9,155)*

*Sylfeini (amhwysol): Cymru: Rhag 2022 (1,461); Rhag 2018 (1,283)*

Mae'r patrymau yng Nghymru ymhlith grwpiau demograffig allweddol yn debyg i Brydain Fawr yn ei chyfanrwydd. Mae pobl sy'n rhentu'n breifat a'r rheini lle mae preswylwyr wedi bod yn byw yn eu cyfeiriad am gyfnod byrrach yn llai tebygol o fod â chofnod cywir ar y gofrestr.

**Tabl 4: Cywirdeb y gofrestr llywodraeth leol yn ôl grwpiau demograffig allweddol yng Nghymru**

| | | Cymru | | Prydain Fawr | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2018** | **2022** | **2018** | **2022** |
| **Trefol/Gwledig** | Trefol | 88% | **89%** | 88% | 88% |
| | Gwledig | 91% | **89%** | 91% | 91% |
| **Deiliadaeth** | Yn eiddo i berchen-feddianwyr | 94% | **95%** | 95% | 96% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Prynu gyda morgais/ rhanberchnogaeth | 93% | **92%** | 95% | 91% |
| | Pobl sy'n rhentu'n breifat | 82% | **78%** | 81% | 77% |
| | Pobl sy'n rhentu gan yr awdurdod lleol | 91% | **88%*** | 92% | 88% |
| | Pobl sy'n rhentu gan Gymdeithas Dai | 91% | **85%** | 91% | 90% |
| **Grŵp economaidd-gymdeithasol** | AB | 93% | **92%** | 94% | 91% |
| | C1 | 96% | **93%** | 93% | 91% |
| | C2 | 95% | **93%** | 93% | 93% |
| | DE | 86% | **88%** | 89% | 89% |
| **Amser yn byw yn y cyfeiriad** | Hyd at flwyddyn | 73% | **69%** | 56% | 53% |
| | 1-2 flynedd | | | 93% | 84% |
| | 2-5 mlynedd | 92% | **93%** | 94% | 91% |
| | 5-10 mlynedd | 93% | **91%** | 96% | 94% |
| | 10-16 mlynedd | 96% | **92%** | 95% | 94% |
| | 16 mlynedd + | 95% | **96%** | 95% | 95% |

*Sylfeini (amhwysol): Prydain Fawr: Rhag 2022 (9,479); Rhag 2018 (9,155)*

*Sylfeini (amhwysol): Cymru: Rhag 2022 (1,461); Rhag 2018 (1,283)*

## Mesur cywirdeb a chyflawnrwydd

Gan ddefnyddio'r ffigurau canrannol a gynhyrchwyd o'r ymchwil hon, mae'n bosibl amcangyfrif nifer y bobl ym mhoblogaeth Cymru nad ydynt wedi'u cofrestru'n gywir neu sydd â gwallau yn eu cofnodion ar y gofrestr. Nodir yr amcangyfrifon hyn yn Nhabl 5.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ymwybodol mai dim ond amcangyfrifon y gall y rhain fod am sawl rheswm – nodir y rhain yn y prif adroddiad, y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r daflen ffeithiau hon er mwyn sicrhau bod pobl yn deall cyfyngiadau'r amcangyfrifon hyn.

**Tabl 5: Mesur cywirdeb a chyflawnrwydd yng Nghymru**

| | | Rhagfyr 2018 | Rhagfyr 2022 |
|---|---|---|---|
| **Cyflawnrwydd** | Cofrestr llywodraeth leol | 406,000 - 557,000 | **276,000 - 404,000** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cofrestrau seneddol | 376,000 - 522,000 | **232,000 - 349,000** |
| Cywirdeb | Cofrestr llywodraeth leol | 197,000 - 333,000 | **205,000 - 304,000** |
| | Cofrestrau seneddol | 194,000 - 332,000 | **179,000 - 271,000** |

Dylid hefyd nodi nad yw'r ystod a gyflwynir uchod yn golygu y dylai fod 276,000 – 404,000 o gofnodion ar y gofrestr. Bydd y rhai yn y cyfanswm “nad ydynt wedi'u cofrestru'n gywir” yn cynnwys y rheini sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr ond mewn cyfeiriad blaenorol (cofnod anghywir).

The
Electoral
Commission


# The December 2022 electoral registers in Wales

This factsheet should be read in conjunction with the main report: The Electoral Commission Accuracy and Completeness report 2022 Great Britain and Northern Ireland.

The results from this wave show that in Wales in December 2022:

- Local government registers were 87% complete and 89% accurate
- Parliamentary registers were 88% complete and 90% accurate

**Figure 1.1: Completeness and accuracy of local government and parliamentary registers in Wales**




*Base (unweighted): Parliamentary: Completeness 1,410; Accuracy 1,429, Local Government: Completeness 1,485; Accuracy 1,461*

## Completeness

The local government and parliamentary register in Wales have both seen improvements in completeness since 2018, each increasing by six percentage points. The local government register is now 87% complete (compared with 81% in 2018) and the parliamentary register is now 88% complete (compared with 82%).

## Type of completeness errors

Completeness means that every person who is entitled to have an entry on the electoral register is registered. It refers to the percentage of eligible people who are registered at their current address.

A variety of errors can be identified when analysing the completeness of the electoral register. These are categorised as either 'major' or 'minor' errors.

Major errors can be split into three different categories:

A. The proportion of eligible residents who are currently not included on the register at their current address (i.e., the surveyed address).

B. Errors relating to someone's name may prevent an individual from casting their vote at a polling station which mean they are not truly registered (e.g., the first name or surname).

C. Errors which would prevent an eligible elector from casting their vote by suggesting they are ineligible (e.g., an incorrect nationality marker on the parliamentary register or a recorded date of birth which is later than an attainer's birthday).

Minor errors are those which would not prevent someone from casting their vote (for example, an entry with a spelling error). Completeness errors in Wales are broadly similar to Great Britain as a whole. The highest proportion of major errors remain due to eligible residents not being registered at their current address, similarly to 2018. Minor errors are found for 8.8% of eligible residents in Wales.

**Table 1: Types of completeness errors on the local government registers in Wales**

| | **Wales** | | **Great Britain** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2022** | **2018** | **2022** |
| **Major errors total** | **18.5%** | **13.2%** | **16.9%** | **14.1%** |
| **Major errors – (a)** Living at address but not named on register | **18.2%** | **12.4%** | **16.5%** | **13.4%** |
| **Major errors – (b)** | **0.3%** | **0.3%** | **0.4%** | **0.7%** |
| First name and/or surname wrong on register | 0.3% | 0.3% | 0.5% | 0.7% |
| First name and/or surname missing on register | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Middle name wrong on register (where necessary) | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| **Major errors – (c)** | **0.0%** | **0.5%** | **0.0%** | **0.1%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Incorrect nationality marker that excludes from a register | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| DoB on register later than actual DoB | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.1% |
| **Minor errors total** | **11.5%** | **8.8%** | **8.2%** | **8.6%** |
| First name/surname on register misspelled | 0.9% | 0.8% | 1.3% | 0.6% |
| First name/surname on register incomplete | 0.6% | 0.3% | 0.5% | 0.3% |
| Middle name missing from register | 9.1% | 6.4% | 7.2% | 6.5% |
| Middle name or initials misspelled or incomplete on register | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.2% |
| Middle name or initial wrong on register | 0.0% | 0.2% | 0.1% | 0.2% |
| Person does not have a middle name but middle name on registers (respondents only) | 0.6% | 0.6% | 1.3% | 1.1% |
| Surname is/assumed to be previous surname | 0.3% | 0.5% | 0.5% | 0.3% |

*Base (unweighted): December 2018: Wales – 1,368; GB – 9,679*

*Base (unweighted): December 2022: Wales – 1,485; GB – 9,495*

Patterns have remained the same since 2018 among key demographic groups, with lower levels of registration among younger people, both private and local authority renters and those who have recently moved to their address. As shown in Table 2, the most substantial increases have been among younger people, private renters and those belonging to the DE social group.

**Table 2: Local government register completeness by key characteristics in Wales**

| | | Wales | | Great Britain | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2018 | 2022 | 2018 | 2022 |
| **Urban/rural** | Urban | 81% | **87%** | 83% | **85%** |
| | Rural | 81% | **86%** | 85% | **89%** |
| **Gender** | Male | 80% | **86%** | 83% | **85%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Female | 82% | **87%** | 83% | **87%** |
| **Age** | 18 - 34 | 66% | **79%** | 68% | **71%** |
| | 35 - 44 | 78% | **82%** | 82% | **84%** |
| | 45 - 54 | 85% | **90%** | 90% | **91%** |
| | 55 - 64 | 92% | **91%** | 90% | **94%** |
| | 65+ | 92% | **97%** | 94% | **96%** |
| **Tenure** | Owner occupied | 91% | **94%** | 91% | **95%** |
| | Buying on mortgage/shared ownership | 78% | **84%** | 86% | **88%** |
| | Private renters | 60% | **73%** | 58% | **65%** |
| | Local authority renters | 86% | **73%** | 84% | **79%** |
| | Housing Association renter | 76% | **82%** | 82% | **79%** |
| **Socio-economic group** | AB | 87% | **87%** | 86% | **89%** |
| | C1 | 82% | **86%** | 85% | **86%** |
| | C2 | 82% | **89%** | 80% | **86%** |
| | DE | 76% | **85%** | 80% | **81%** |
| **Adults in household** | 1 | 82% | **90%** | 86% | **86%** |
| | 2 | 83% | **87%** | 84% | **88%** |
| | 3 - 5 | 77% | **85%** | 81% | **82%** |
| | 6+ | | | 78% | **79%** |
| **Duration at address** | Up to 1 year | 45% | **53%** | 36% | **39%** |
| | 1 - 2 years | | | 71% | **72%** |
| | 2 - 5 years | 83% | **83%** | 84% | **82%** |
| | 5 - 10 years | 83% | **86%** | 90% | **91%** |
| | 10 - 16 years | 88% | **91%** | 88% | **92%** |
| | 16 years + | 91% | **95%** | 92% | **95%** |
| **Nationality** | UK and RoI | 82% | **88%** | 86% | **87%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EU | 58%* | **70%*** | 54% | **70%** |
| Commonwealth | | | 62% | **66%** |

*Base (unweighted): December 2018: Wales – 1,368; GB – 9,679*

*Base (unweighted): December 2022: Wales – 1,485; GB – 9,495 * Warning – small bases sizes.*

## Accuracy

The table below shows the types of error found on the December 2022 local government registers. As for Great Britain overall, the highest proportion of major accuracy errors (those which would prevent someone from voting, or incorrectly allow someone to vote) relate to entries where the individual on the register no longer lives at the address (9.3%). In Wales, 9.0% of entries contain minor errors which would not prevent someone from voting.

**Table 3: Type of errors in accuracy on local government registers in Wales**

| | Wales | | Great Britain | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2022** | **2018** | **2022** |
| **Major errors total** | **8.8%** | **10.8%** | **11.2%** | **11.7%** |
| **Major errors – (a)**<br>No corresponding name taken at address | **8.2%** | **9.3%** | **10.4%** | **9.8%** |
| **Major errors – (b)** | **0.2%** | **0.6%** | **0.7%** | **1.1%** |
| First name and/or surname wrong on register | 0.2% | 0.3% | 0.4% | 0.7% |
| First name and/or surname missing on register | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| UK/Irish/Commonwealth marked as qualifying foreign national present | 0.0% | 0.3% | 0.3% | 0.5% |
| **Major errors – (c)** | **0.4%** | **0.9%** | **0.5%** | **0.7%** |
| Name on register corresponds to ineligible name on survey | 0.2% | 0.0% | 0.2% | 0.3% |
| Attainers – DOB missing or wrong | 0.0% | 0.8% | 0.1% | 0.2% |
| Qualifying foreign national with marker missing | 0.2% | 0.1% | 0.2% | 0.2% |
| **Minor errors total** | **7.9%** | **9.0%** | **9.1%** | **8.8%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| First name/surname on register misspelled | 0.6% | 0.9% | 1.2% | 0.7% |
| First name/surname on register incomplete | 0.4% | 0.3% | 0.5% | 0.3% |
| Middle name missing from register | 6.1% | 6.6% | 6.4% | 6.6% |
| Middle name or initials misspelled or incomplete on register | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.2% |
| Middle name or initial wrong on register | 0.0% | 0.2% | 0.1% | 0.2% |
| Person does not have a middle name but middle name on registers (respondents only) | 0.6% | 0.6% | 1.3% | 1.1% |
| Surname is/assumed to be previous surname | 0.2% | 0.5% | 0.5% | 0.3% |
| First/middle/surname in different order on register | 0.0% | 0.0% | 0.1% | 0.0% |
| DoB earlier on register for attainer | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

*Bases (unweighted): Great Britain: Dec 2022 (9,479); Dec 2018 (9,155)*

*Bases (unweighted): Wales: Dec 2022 (1,461); Dec 2018 (1,283)*

Patterns in Wales among key demographics are similar to Great Britain as a whole. Private renters and those where residents have been living at their address for a shorter duration are less likely to have an accurate entry on the register.

**Table 4: Accuracy of local government register by key demographics in Wales**

| | | Wales | | Great Britain | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2018** | **2022** | **2018** | **2022** |
| **Urban/Rural** | Urban | 88% | **89%** | 88% | 88% |
| | Rural | 91% | **89%** | 91% | 91% |
| **Tenure** | Owner occupied | 94% | **95%** | 95% | 96% |
| | Buying on mortgage/shared ownership | 93% | **92%** | 95% | 91% |
| | Private renters | 82% | **78%** | 81% | 77% |
| | Local authority renters | 91% | **88%*** | 92% | 88% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Housing Association renter | 91% | **85%** | 91% | 90% |
| **Socio-economic group** | AB | 93% | **92%** | 94% | 91% |
| | C1 | 96% | **93%** | 93% | 91% |
| | C2 | 95% | **93%** | 93% | 93% |
| | DE | 86% | **88%** | 89% | 89% |
| **Duration at address** | Up to 1 year | 73% | **69%** | 56% | 53% |
| | 1 - 2 years | | | 93% | 84% |
| | 2 - 5 years | 92% | **93%** | 94% | 91% |
| | 5 - 10 years | 93% | **91%** | 96% | 94% |
| | 10 - 16 years | 96% | **92%** | 95% | 94% |
| | 16 years + | 95% | **96%** | 95% | 95% |

*Bases (unweighted): Great Britain: Dec 2022 (9,479); Dec 2018 (9,155)*

*Bases (unweighted): Wales: Dec 2022 (1,461); Dec 2018 (1,283)*

## Quantifying accuracy and completeness

Using the percentage figures produced from this research, it is possible to estimate the number of people in the population of Wales who are not correctly registered, or who have inaccuracies in their register entries. These estimates are provided in Table 5.

However, it is important to be aware that these can only be estimates for several reasons – these are detailed in the main report, which should be read in conjunction with this factsheet to ensure the limitations of these estimates are understood.

**Table 5: Quantifying accuracy and completeness in Wales**

| | | December 2018 | December 2022 |
|---|---|---|---|
| **Completeness** | Local government register | 406,000 - 557,000 | **276,000 - 404,000** |
| | Parliamentary registers | 376,000 - 522,000 | **232,000 - 349,000** |
| **Accuracy** | Local government register | 197,000 - 333,000 | **205,000 - 304,000** |
| | Parliamentary registers | 194,000 - 332,000 | **179,000 - 271,000** |

It should also be noted that the range presented above does not mean that there should be an additional 276,000 - 404,000 entries on the register. Those within this ‘not correctly registered’ total will include those who are included on the register but at a previous address (an inaccurate entry).

Y Comisiwn Etholiadol

The Electoral Commission

David Rees AS
Dirprwy Llywydd
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Hydref 2023

Annwyl Cadeirydd,

**Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol**

Rwyf yn ysgrifennu atoch i’ch hysbysu y bydd Shaun McNally yn camu i lawr o’i rôl fel Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol ar 30 Tachwedd 2023. Bydd Rob Vincent, aelod presennol o Fwrdd y Comisiwn, yn ymgymryd â rôl Prif Weithredwr Interim, hyd nes y gwneir penodiad parhaol. Bydd recriwtio yn dechrau cyn gynted â phosibl. Bydd David Moran, Cyfarwyddwr Ariannol Interim y Comisiwn, yn ymgymryd dros do â rôl y swyddog cyfrifo.

Mae Shaun wedi cyflawni llawer yn ei 18 mis yn y Comisiwn, yn mynd i'r afael â'r materion pwysicaf yn gyflym ac yn fedrus. Yn benodol, mae wedi arwain y Comisiwn wrth i’r sefydliad draddodi’r Ddeddf Etholiadau Llywodraeth y DU, gan fwrw ymlaen â’r gweithredu’n gyflym a chan roi ystyriaeth ofalus i bleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr. Mae hefyd wedi ceisio buddsoddi yn nyfodol y Comisiwn, gan nodi blaenoriaethau a hyrwyddo buddsoddiad yn seilwaith TG y Comisiwn, seiber-ddiogelwch, a datblygu a chefnogi staff dawnus ac ymroddedig y Comisiwn. Rydw i’n ddiolchgar i Shaun am bopeth y mae wedi ei gyflawni yn ystod ei gyfnod gyda’r Comisiwn

Mae Rob Vincent, a fydd yn ymgymryd y rôl interim ym mis Rhagfyr, wedi gwasanaethu fel aelod o Fwrdd y Comisiwn Etholiadol ers Ionawr 2016, sydd â dealltwriaeth drylwyr o waith y Comisiwn. Roedd Rob yn Gyfarwyddwr anweithredol Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol rhwng 2008-2010, yn Brif Weithredwr Cyngor Kirklees rhwng 2004 a 2010 ac arweiniodd yr ymyriad i Gyngor Doncaster, ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol rhwng 2010 a 2011.

Gwn fod Rob yn rhannu fy ymrwymiad ac ymrwymiad y Bwrdd, i baratoi y Comisiwn at y sialensiau o’m blaenau, a chefnogi etholwyr, gweinyddwyr, pleidiau ac ymgyrchwyr wrth i ni baratoi tuag at etholiadau mis Mai a thu hwnt.

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ’r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

The Electoral Commission
Companies House
Crown Way
Cardiff CF14 3UZ

Ffôn/Tel: 0333 103 1929
infowales@electoralcommission.org.uk
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
electoralcommission.org.uk

Roeddwn am roi gwybod ichi am y newidiadau hyn cyn inni ysgrifennu at randdeiliaid y Comisiwn yn ehangach gyda'r newyddion ddydd Gwener. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Ella Downing, Uwch Gynghorydd Cyfathrebu ar edowning@electoralcommission.org.uk.

Yr eiddoch yn gywir,

John Pullinger
Cadeirydd

David Rees MS
Deputy Llywydd
Chair, Llywydd's Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

18 October 2023

Dear Chair,

**Electoral Commission Chief Executive**

I am writing to inform you that Shaun McNally will be stepping down from his role as Chief Executive of the Electoral Commission on 30 November 2023. Rob Vincent, currently a member of the Commission Board, will take on the role of Interim Chief Executive until a permanent replacement is appointed. Recruitment will begin as soon as possible. David Moran, the Commission's Interim Finance Director, will temporarily take on the role of accounting officer.

Shaun has achieved a great deal in his 18 months at the Commission, addressing the most pressing issues quickly and skilfully. In particular, he has guided the Commission through its delivery of the UK Government's Elections Act, taking forward implementation at pace and with careful consideration for voters, campaigners and administrators. He has also sought to invest in the Commission's future, identifying priorities and championing investment in the Commission's IT infrastructure, cyber security, and the development and support of the Commission's talented and committed staff. I am grateful to Shaun for all he has achieved in his time at the Commission.

Rob Vincent, who takes up the interim role from December, has served as a member of the Electoral Commission Board since January 2016, and has a thorough understanding of the Commission's work. Rob was a non-executive Director of DCLG from 2008-2010, Chief Executive of Kirklees Council from 2004 until 2010 and led the intervention into Doncaster Council, at the request of the Secretary of State between 2010 and 2011.

I know Rob shares my commitment and that of the Board, to readying the Commission for the challenges ahead, and supporting voters, administrators, parties and campaigners as we prepare for the May elections and beyond.

I wanted to inform you of these changes before we write to Commission stakeholders more widely with the news on Friday. Should you have any questions, please do not hesitate to get in touch with Ella Downing, Senior Communications Adviser at edowning@electoralcommission.org.uk.

Yours sincerely,

John Pullinger
Chair